Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau Mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad ar: Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Rhondda Cynon Taf

ISBN Argraffu 978-1-84726-370-4
ISBN PDF 978-1-84726-371-1

2007

Rhagair

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drydydd cyfnod rhaglen arolygu timau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr.

Canfu'r tîm arolygu GTI sefydledig, a chanddo dîm ymrwymedig a brwdfrydig, sydd wedi elwa ar reoli cyson a chadarn ers y cychwyn. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cymryd rôl strategol o ran datblygu a chyflwyno'r GTI. Mae gan y gwasanaeth adnoddau da gyda phartneriaid sy'n dangos eu hymrwymiad i'r GTI.

Mae'r GTI wedi'i integreiddio i'r agendâu diogelwch cymunedol a gwasanaethau plant, ac mae'n gyfranogwr actif yn y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r bartneriaeth fframwaith plant. Mae rhaglen atal drawiadol ar waith, gyda chysylltiadau amlasiantaeth da.

I blant a phobl ifanc sydd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, mae ystod o ymyriadau sy'n ymdrin â materion amrywiaeth. Darperir gwasanaethau arbenigol gan asiantaethau partner, ac mae staff yn dangos ymrwymiad i gydweithio.

Yn gyffredinol, barnwn fod GTI Rhondda Cynon Taf yn perfformio'n dda. Bydd rhoi sylw i'r materion a'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad arolygu hwn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gadarnhau ei waith ymhellach ac i gyflawni safonau uwch byth.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Medi 2007

Gwnaed gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod Chwefror a Mawrth 2007.

Cynnwys

		Tudalen
	Geirfa	4
	Cyflwyniad	6
	Trosolwg o'r ardal	7
	Crynodeb sgorio	9
	Materion amrywiaeth	10
	Ystadegau allweddol	12
	Canfyddiadau allweddol	14
	Argymhellion	16
1.	RHEOLI	17
2.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	23
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	28
4.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GCHau	40
5.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	46
	Arolygu TTIau ar y cyd	49
	Trefniadau arolygu	50
	Cod ymarfer	51
	Dull sgorio	53
	Y camau nesaf	54
	Meini prawf arolygu ar gyfer TTIau yn Lloegr	55

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i holl staff y GTI, aelodau'r Bwrdd Rheoli a sefydliadau partner am eu cymorth i sicrhau i'r arolygiad hwn gael ei gynnal yn ddidrafferth.

Yn benodol, hoffem fynegi ein diolchgarwch i Susan Darch am ei hymrwymiad i'r arolygiad.

Prif Arolygydd	*Sheila Booth Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Rose Burgess Arolygiaeth Prawf EM, Martyn Griffiths Arolygiaeth Prawf EM, Keith Humphreys Arolygiaeth Prawf EM, Joseph Simpson Arolygiaeth Prawf EM, Alicia Etchegoyen Y Comisiwn Gofal Iechyd, Clare Yardley Estyn*
Aseswr Ymarfer	*Krystyna Findley Arolygiaeth Prawf EM*
Staff Ategol	*Pippa Bennett, Grace Dickin*
Golygydd	*Alan MacDonald Arolygiaeth Prawf EM*
Cynrychiolydd GTI	*Susan McKelvay*
Tîm Cyhoeddi	*Rachel Dwyer, Zach Rathore*

Geirfa

PAAP	Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant
APB	Asesiad Perfformiad Blynyddol
Asset	Erfyn asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
TThDC	Tîm Therapi Dwys Cymunedol
GGGC	Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfa Cymru
APC	Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr
SCT	Swyddfa Cofnodion Troseddol
CAGC	Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
PDC	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
GCH	Gorchymyn Cadw a Hyfforddi
Estyn	Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
CHA	Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg
Fframwaith	Partneriaeth Fframwaith Plant
MT	Meddyg Teulu
EM	Ei Mawrhydi
ACEM	Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Arolygiaeth Prawf EM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
STIEM	Sefydliad Troseddwyr Ifanc EM
CGC	Cynllun Goruchwylio Cychwynnol
RhGDd	Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys
TG	Technoleg Gwybodaeth
AAC	Adolygiad Ardal ar y Cyd
AALl	Awdurdod Addysg Lleol
BLlDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd
CARA	Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth
NACRO	Cymdeithas Genedlaethol dros Ofal ac Adsefydlu Troseddwyr
RhCA	Rhwydwaith Coleg Agored
Ofsted	Swyddfa Safonau Addysg
Onset	Offeryn asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol
DHThD	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol
IPAG	Iechyd Personol ac Addysg Gymdeithasol
CCH	Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu
PPO	Troseddwyr toreithiog a throseddwyr eraill sy'n flaenoriaeth

ACD	Adroddiad Cyn Dedfrydu
DAÔ	Darpariaeth Adsefydlu ac Ôl-ofal
PN	Perygl Niwed
PND	Perygl Niwed Difrifol
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CAMPUS	Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
AGCC	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
ADB	Adroddiad Dedfryd Benodol
GCTA	Gwasanaethau Cyffuriau Triniaeth ac Addysg
RhCG	Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
PCChI	Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
STI	Sefydliad Troseddwyr Ifanc
SWTI	System Wybodaeth Troseddau Ieuenctid
GTI	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
TTI	Tîm Troseddau Ieuenctid

Cyflwyniad

Cychwynnodd rhaglen cyd-arolygu TTI ym mis Medi 2003, a dyma'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Gweithredir y rhaglen mewn tri chyfnod ac mae'n cynnwys pob un o 157 TTI Cymru a Lloegr yn ystod cylch o bum mlynedd.

Cychwynnodd hwn, sef trydydd cyfnod yr arolygiad, ym mis Medi 2005 ac mae'n cynnwys pob TTI na chawsant eu harolygu'n flaenorol yn ystod cyfnodau un a dau. Datblygwyd ei fethodoleg i gyflenwi methodoleg Adolygiadau Ardal ar y Cyd Gwasanaethau Plant yn Lloegr, ac arolygiadau a wnaed fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid o dan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 yng Nghymru. Er bod y rhaglen TTI yn parhau'n broses wahanol yng Nghymru a Lloegr, cynhelir arolygiadau o fewn amserlen debyg i'r trefniadau arolygu eraill hyn lle bynnag y bo modd, fel y gellir rhesymoli a lleihau unrhyw feysydd posibl ar gyfer gorgyffwrdd neu ddyblygu.

Mae arolygiad TTI yn cynnwys pum maes gwaith craidd:

- trefniadau rheoli a phartneriaeth, gan gynnwys rôl a gweithrediad y Bwrdd lleol
- gwaith yn y llysoedd
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi
- dioddefwyr a chyfiawnder adferol.

Mae canfyddiadau'r arolygiad TTI yn llywio nid yn unig yr Adolygiad Ardal ar y Cyd ond hefyd yr Asesiad Corfforaethol, Asesiad Perfformiad Blynyddol ac Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr yn Lloegr, ac yng Nghymru cynhelir arolygiadau fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.

Ar ôl cwblhau'r arolygiad, gofynnir i'r TTI baratoi cynllun gwella sy'n ymateb i'r argymhellion. Ar ôl cytuno arno, trosglwyddir y cynllun newydd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fonitro ei weithredu.

Trosolwg o'r ardal

- Lleolir Rhondda Cynon Taf yng nghymoedd de-ddwyrain Cymru, ac mae'n cynnwys ardal o 424 cilometr sgwâr. Dyma'r ail sir fwyaf poblog yng Nghymru, a chanddi boblogaeth o tua 232,000 o bobl. Nid oes gan y Bwrdeistref Sirol dref ganolog neu brif dref sirol, ond mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru ar hyd y cymoedd a'r ardal o amgylch Llantrisant.
- Cafwyd gostyngiad yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2001, ac er iddo aros yn gymharol gyson ers hynny, effeithiwyd ar y Bwrdeistref Sirol (yn arbennig cymunedau'r cymoedd) gan fod pobl ifanc a galluog wedi mudo o'r ardal. Yn 2005, 25,200 oedd poblogaeth y bobl rhwng 10-17 oed.
- Roedd tua hanner y Fwrdeistref Sirol ymysg yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r amddifadedd ar ei fwyaf yng nghymunedau cymoedd Cynon a Rhondda. Roedd y disgwyliad oes islaw cyfartaledd Cymru; roedd mwy o bobl yn dioddef afiechydon hirdymor, problemau iechyd neu anabledd; roedd cyfraddau beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau uwchlaw'r lefel gyfartalog, ac roedd cymwysterau addysgiadol islaw'r lefel gyfartalog. Roedd lefelau diweithdra uwchlaw'r lefel gyfartalog a chyflogau islaw'r lefel gyfartalog. Roedd 85% o'r eiddo ym mandiau A, B a C, ar gyfer treth cyngor o'u cymharu â 59% ar gyfer Cymru.
- Yng nghyfrifiad 2001, dywedodd 16.8% o drigolion Rhondda Cynon Taf eu bod yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg, o'u cymharu â chyfartaledd o 23.5% ar gyfer Cymru. Roedd ganddi lai o drigolion nad oeddent yn Wyn Brydeinig hefyd: 1.2% yn Rhondda Cynon Taf yn 2001 o'u cymharu â chyfartaledd o 2.1% ar gyfer Cymru.
- Roedd y ffigurau troseddu ar gyfer 2004/2005 yn dangos bod cyfanswm o 91 o droseddau yn cael eu cyflawni am bob 1000 o'r boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf, a oedd yn is na'r ffigur o 105 ar gyfer Cymru a Lloegr. 53 trosedd am bob 1000 o'r boblogaeth oedd y lefel droseddu ymysg y boblogaeth 10-17 oed, a oedd yn cymharu â chyfartaledd o 55 ar gyfer Cymru a Lloegr. Cwympodd y ffigur ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn 2005/2006 i 41 trosedd am bob 1000 o'r boblogaeth 10-17 oed, gan olygu mai'r awdurdod hwn oedd â'r trydydd ffigur isaf yng Nghymru.
- Dyfarnwyd lefel perfformiad o 4 i GTI Rhondda Cynon Taf gan grynodeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2006.
- Yn 2005/2006, cynhaliwyd Adolygiad ar y Cyd a ddaeth i'r casgliad bod gwasanaethau i blant a theuluoedd yn 'achosi llawer o bryder' a bod y sefyllfa'n parhau'n fregus. Yn gyffredinol, barnodd fod gan

Gyngor Bwrdeistref Sir Rhondda Cynon Taf 'wasanaethau anghyson', ond o ganlyniad i'r camau yr oedd yn eu cymryd eisoes, ei fod mewn sefyllfa dda i gynnal gwasanaethau a gwneud gwelliannau pellach.

Crynodeb sgorio

4: Rhagorol; 3: Da; 2: Digonol; 1: Annigonol.

	Sgôr adran
Rheoli	**4**
Gwaith yn y llysoedd	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi	**3**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**3**

Asesiad cyffredinol

Yn gyffredinol, canfuom fod GTI Rhondda Cynon Taf yn cael ei reoli'n dda, yn ymrwymedig i wella ac yn cynnig gwasanaeth da i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd y Bwrdd Rheoli yn cyflawni rôl strategol o ran datblygu a chyflwyno'r GTI. Roedd gan y gwasanaeth adnoddau da, gyda phartneriaid yn dangos eu hymrwymiad. Roedd y GTI wedi elwa ar reolaeth gyson a chadarn ers ei sefydlu. Roedd y grŵp staff yn frwdfrydig ac yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, ac roedd ystod o gyfleoedd hyfforddi ar gael iddynt.

Roedd llysoedd yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y GTI, ond roedd angen rhoi sylw i agweddau penodol ar yr adroddiadau cyn dedfrydu, gan gynnwys dadansoddi'r drosedd a Pherygl Niwed.

Roedd gan y GTI ystod eang o ymyriadau i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac i'r rheiny a oedd eisoes yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Yn gyffredinol, roedd safon asesiadau yn dda, ond nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i Berygl Niwed. Roedd cynlluniau goruchwylio yn amrywio o ran eu hansawdd, ac nid oedd yr amcanion yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Roedd y staff yn dangos sensitifrwydd i ystyriaethau amrywiaeth, ac roedd diogelu yn uchel ar agenda pawb. Ymdriniwyd ag ystyriaethau cyflogaeth, hyfforddi, addysg ac iechyd, ond roedd pryder ynglŷn ag argaeledd llety addas. Roedd plant a phobl ifanc a oedd yn destun gorchmynion cadw a hyfforddi yn cael gwasanaeth arbennig o dda gan y GTI. Roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith perfformiad ar sail canlyniadau i roi mwy o ffocws ar effeithiolrwydd ymyriadau a gynigiwyd gan y GTI.

Yn gyffredinol, roedd gwaith gyda dioddefwyr yn dda, ac roedd cyfiawnder adferol wedi'i sefydlu yng ngwaith y GTI.

Roedd llawer o ganfyddiadau'r arolygiad hwn wedi cael eu nodi eisoes gan y GTI, ac roedd ychydig o waith ar y gweill eisoes i wneud y

newidiadau gofynnol.

Materion amrywiaeth

Roedd GTI Rhondda Cynon Taf yn bartner i'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Iaith Gymraeg a oedd yn cael eu gweithredu ar draws yr awdurdod. Roedd ganddo ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ei hun, ac yn ddiweddar datblygwyd Cynllun Amrywiaeth drafft.

Roedd gan Rondda Cynon Taf boblogaeth a oedd yn bennaf yn wyn Prydeinig. Roedd canran y grwpiau du a lleiafrifol ethnig, ar 1.2%, islaw cyfartaledd Cymru, sef 2.1%. Ymwneud cyfyngedig oedd gan y GTI â grwpiau du a lleiafrifol ethnig. Nid oedd llawer o geiswyr lloches, ond roedd poblogaeth o deithwyr heb gartrefi parhaol.

Nid oedd gan y Bwrdd Rheoli gynrychiolydd du a lleiafrifol ethnig ac roedd grŵp staff y GTI bron yn gyfan gwbl yn wyn Prydeinig, er bod cydbwysedd da o ran rhyw y staff. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant ar faterion amrywiaeth a chynhaliwyd cwrs hyfforddi amrywiaeth o bryd i'w gilydd.

Mewn ymateb i *Ymchwiliad Stephen Lawrence* (1999), roedd y GTI wedi penodi swyddog mentrau hil. Roedd cylch gwaith y swydd hon wedi cynyddu i gwmpasu ystyriaethau amrywiaeth ehangach, ac adlewyrchwyd hyn gan y ffaith i deitl y swydd gael ei newid yn ddiweddar i swyddog amrywiaeth. Roedd y swyddog hwn yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau hiliol ac a ysgogwyd gan hil, yn cynnal gwaith ataliol ac yn gweithio gyda'r tîm cywiro (cyfiawnder adferol). Roedd yn gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i aelodau eraill o'r tîm. Barnom fod modd i'r GTI wneud mwy i fanteisio'n llawn ar ei sgiliau o ran datblygu ymagwedd gorfforaethol at ymdrin ag amrywiaeth.

Roedd nifer poblogaeth yr ardal a oedd yn siarad Cymraeg islaw cyfartaledd Cymru, ac ni chafwyd galw mawr i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd tyfiant ar y gweill o ran addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd cynnydd yn y galw am ddarpariaeth Gymraeg yn debygol. Roedd gan y GTI bedwar aelod o staff a oedd yn rhugl yn y Gymraeg ac un dysgwr, ac roedd yn hyderus y gallai fodloni'r galw presennol. Fodd bynnag, rhaid iddo gynllunio am unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn ei allu presennol yn y dyfodol. Er bod y rhan fwyaf o wybodaeth gyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, nid oedd peth deunydd, yn arbennig deunydd a ddarparwyd i ddioddefwyr, yn ddwyieithog.

Rhoddwyd ystyriaeth gyson i faterion amrywiaeth wrth asesu plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac wrth asesu'r dioddefwyr. Roedd ymyriadau oedd â'r nod o atal troseddu ac aildroseddu yn ystyried anghenion amrywiaeth unigol. Rhoddwyd sylw i ystyriaethau rhyw, ac roedd staff gwrywaidd a benywaidd ar gael yn y rhan fwyaf o brosiectau. Roedd prosiectau Splash a Splosh ar gael i blant a phobl ifanc ag anableddau, ac

roedd staff yn ymwybodol o anghenion arbennig eraill fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd a sgiliau llythrennedd cyfyngedig. O bryd i'w gilydd, cynhaliwyd Grŵp Merched ac roedd y GTI wedi datblygu pecynnau gwaith i ferched a menywod ifanc ynglŷn â phendantrwydd a dinasyddiaeth.

Roedd rhaglenni magu plant yn sensitif i anghenion unigol, a darparwyd cefnogaeth briodol i sicrhau bod modd i rieni/gofalwyr gael mynediad at raglenni a chyfranogi ynddynt.

Yn gyffredinol, roedd y GTI yn gwneud cynnydd da o ran ymdrin ag anghenion amrywiaeth.

Ystadegau allweddol

Ystadegyn darllen ffeiliau	Sgôr darllen ffeiliau'r GTI	Cyfartaledd ar gyfer TTIau cyfnod 3 hyd yn hyn	Ystod TTIau cyfnod 3 hyd yn hyn	Targedau BCI
	(% achosion)			
Cwblhawyd asesiad cychwynnol yn unol â gofynion safonau cenedlaethol: – prydlondeb	97%	80%	50-97%	
– ansawdd digonol	94%	69%	34-97%	
Cwblhawyd asesiad llawn o Berygl Niwed i eraill ar achosion perthnasol	62%	68%	54-100%	
Tystiolaeth o arolygiaeth gan reolwyr mewn achosion Perygl Niwed	83%	48%	0-100%	
Y Cynllun Goruchwylio Cychwynnol yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol	54%	32%	7-88%	100%(1)
Amlder apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion gorchymyn/trwydded, a chydag unrhyw ystyriaethau o ran Perygl Niwed	100%	80%	43-100%	
Dyfarniadau am dderbynioldeb/annerbynioldeb absenoldebau yn briodol	88%	73%	54-88%	
Cymerwyd camau adwyo/ adalw, yn ôl y gofyn, yn unol ag amserlen y safonau cenedlaethol	86%	55%	0-100%	
Dim tystiolaeth o unrhyw weithgaredd troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn	73%	71%	55-83%	
Cymerwyd camau priodol dros blant neu bobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn perygl o niweidio'u hunain neu o gael eu niweidio gan eraill.	100%	84%	67-100%	
Cymerir camau effeithiol lle ceir tystiolaeth o anawsterau addysgiadol	55%	67%	20-100%	90%(2)
Gwneir atgyfeiriadau priodol mewn achosion: – iechyd corfforol	100%	65%	0-100%	
– iechyd meddwl/emosiynol	60%	70%	25-93%	100%(3)
– camddefnyddio sylweddau	92%	75%	46-94%	100%(4)
Ymgynghorwyd gyda dioddefwr ynghylch gwaith cyfiawnder adferol/atgyweiriol â phlentyn neu berson ifanc	63%	54%	9-82%	
Asesiad o ansawdd cyffredinol adroddiadau cyn dedfrydu	64%	53%	12-95%	

(1) Yn ymwneud â chynlluniau cadw a hyfforddi.

(2) Mewn cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg amser llawn.
(3) Atgyfeiriadau Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.
(4) Sgrinio ac atgyfeiriadau.

Canfyddiadau allweddol

- ***Rheoli*** - Roedd y Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolwyr priodol ac yn cynnig cyfeiriad strategol i'r GTI. Roedd y partneriaid yn bodloni eu cyfrifoldebau statudol. Roedd angen adolygu ac ail-lansio rhai cytundebau lefel gwasanaeth. Cynrychiolwyd y GTI ar yr holl bartneriaethau perthnasol. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i adnoddu'n dda, gyda grŵp staff ymrwymedig a brwdfrydig a oedd yn cael goruchwyliaeth reolaidd a mynediad da at hyfforddiant. Roedd gan yr holl staff a gwirfoddolwyr wiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol cyfoes, ac roedd pwyslais ar ddiogelu. Roedd prosesau sicrhau ansawdd ar waith, ond roedd angen ymestyn rhai ohonynt.

- ***Gwaith yn y llysoedd*** – Roedd y GTI yn cynnig gwasanaeth da iawn i'r llys trwy ddarparu swyddog llys pwrpasol a gynorthwywyd gan staff eraill y GTI. Roedd cymorth a goruchwyliaeth ar gael yn ystod mechnïaeth, yn ogystal â gwelyau meithrin ar remand. Roedd camau priodol yn cael eu cymryd pan fyddai plant a phobl ifanc yn cael eu remandio neu eu dedfrydu i'r ddalfa, ac roedd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu gweld ar gyfer eu hapwyntiad cyntaf â'r GTI ar ôl cael eu dedfrydu. Fodd bynnag, roedd llai o sylw wedi cael ei roi i rai agweddau o arfer adrodd cyn dedfrydu, gan gynnwys dadansoddi'r drosedd a Pherygl Niwed.

- ***Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned*** – Roedd gan y GTI ddetholiad trawiadol o brosiectau atal. Roedd ystod dda o ymyriadau ar gael, gan gynnwys iechyd arbenigol; camddefnyddio sylweddau; cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg; a magu plant. Roedd y GTI yn gwneud cynnydd da o ran datblygu prosesau ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Cafwyd lleihad o flwyddyn i flwyddyn o ran troseddu am y tro cyntaf ac aildroseddu. Roedd ffocws ar ddiogelu, a gynorthwywyd gan fabwysiadu ymagwedd rheoli risg. Roedd defnydd da yn cael ei wneud o Asset, ond mewn rhai achosion nid oedd digon o sylw wedi cael ei roi i asesu Perygl Niwed. Roedd cynlluniau goruchwylio yn anghyson eu hansawdd, ac nid oeddent yn cynnwys amcanion cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, a synhwyrol.

- ***Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi*** - Roedd y GTI yn cynnig gwasanaeth da i blant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi. Roedd ganddo swyddog gorchymyn cadw a hyfforddi penodol a oedd yn gallu ymweld â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd a darparu gwasanaeth cyson. Gwnaed ymdrechion penderfynol i ailintegreiddio plant a phobl ifanc i'w cymunedau ar ddiwedd cyfnod eu dedfryd yn y ddalfa. Roedd y Rhaglen Adsefydlu ac Ôl-ofal a'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys yn gweithio'n effeithiol. Roedd pryder ynglŷn ag argaeledd llety addas, ond gwnaed ymdrechion mawr i sicrhau bod

plant a phobl ifanc yn cael llety priodol ar ôl cael eu rhyddhau o sefydliadau diogel. Roedd swyddi gwag y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc o fewn y GTI yn effeithio ar fynediad at y gwasanaethau hynny.

- ***Dioddefwyr a chyfiawnder adferol*** – Roedd gwaith gyda dioddefwyr yn gwella ar ôl cychwyn araf, er bod angen rhoi mwy o sylw iddo mewn adroddiadau cyn dedfrydu a Chynlluniau Goruchwylio Cychwynnol. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant ym maes cyfiawnder adferol ac roedd yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd dychmygus. Roedd ystod o raglenni gwneud iawn ar gael.

Argymhellion

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau:

- y llunnir cynllun gwella i ymdrin â'r argymhellion canlynol a'i drosglwyddo i'r prif arolygydd cyn pen pedair wythnos o gyhoeddi'r adroddiad hwn
- bod y fframwaith ar gyfer mesur canlyniadau gwell yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith, a'i ddefnyddio i werthuso ymyriadau unigol a chynllunio gwasanaeth
- bod cynlluniau atal y GTI a phartneriaid eraill yn ffurfio strategaeth atal gydlynol ar gyfer yr awdurdod cyfan
- yr ymdrinnir ag anghenion llety plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu.

Dylai rheolwr y GTI sicrhau:

- bod protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth drafft yn cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd, ac y codir ymwybyddiaeth ohonynt ymysg staff ac asiantaethau partner
- bod anghenion hyfforddi ar gyfer datblygu plant, problemau iechyd meddwl a sgiliau llys yn cael eu bodloni fel rhan o broses sefydlu staff
- bod gwaith yn cael ei wneud i ymdrin â'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn o ran Asset, adroddiadau cyn dedfrydu a Chynlluniau Goruchwylio Cychwynnol, a bod rhaglenni sicrhau ansawdd yn cael eu hymestyn i gynnwys y materion hyn
- bod mwy o sylw yn cael ei roi i ennyn cyfranogiad tadau yn y gwasanaeth, ac y rhoddir mwy o ystyriaeth i ddarparu ymyriadau sy'n gyfleus i rieni/gofalwyr sy'n gweithio
- bod pob cyswllt â phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cofnodi ar y System Wybodaeth Troseddau Ieuenctid
- y rhoddir mwy o ystyriaeth i ymestyn gwneud iawn uniongyrchol.

Dylai sefydliadau partner sicrhau:

- bod lefel cyfraniad yr Awdurdod Addysg Lleol yn ddigon uchel
- yr ymdrinnir â'r prinder lleoedd dysgu yn y gwaith i blant a phobl ifanc sydd o dan oruchwyliaeth y GTI, a bod cyngor am yrfaoedd ar gael i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr
- bod mynediad at asesiadau ar gyfer sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, ac ar gyfer eu cyflwyno, yn cael ei adolygu a bod cynlluniau dysgu unigol yn cael eu datblygu i bob plentyn a pherson ifanc perthnasol
- bod yr anghydfod ynglŷn â rôl, cyfrifoldebau a lleoliad gweithwyr iechyd arbenigol ym meysydd camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn y GTI yn cael ei ddatrys ar frys, a bod y trefniadau goruchwylio clinigol a rheoli rhwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc arbenigol a'r GTI yn cael eu crisialu.

1. RHEOLI

1.1 Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu arolygiaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu darpariaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y GTI a sefydliadau partner.*

Lleolwyd y GTI yn adran Gwasanaethau Cymunedol a Phlant y cyngor, ac roedd Bwrdd Rheoli'r GTI yn is-grŵp i'r PDC. Eisteddai'r prif weithredwr ar y PDC ac roedd yn ymwneud yn weithredol â Grŵp Arweinyddiaeth Cyffredinol De Cymru. Roedd y Bwrdd Rheoli yn cynnig cyfeiriad strategol i'r GTI, ac fe'i cadeiriwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol a Phlant. Ef hefyd oedd cadeirydd Fframwaith a'r Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, ac roedd yn aelod blaenllaw o'r PDC. Roedd modd iddo ddarparu cysylltiadau i'r GTI â'r holl grwpiau hyn a hefyd â thîm rheoli corfforaethol y cyngor a'i aelodau. Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymunedol a Phlant oedd rheolwr llinell rheolwr y GTI, a fu yn ei swydd ers sefydlu'r GTI, ac roedd yn aelod o'r tîm rheoli gwasanaethau plant.

Cryfderau:

- Adolygwyd y Bwrdd Rheoli yn allanol yn 2005, ac estynnwyd ei aelodaeth i gynnwys mwy o gynrychiolaeth gan yr AALl a chynrychiolydd cartrefi strategol. Adolygwyd cylchoedd gorchwyl a diwygiwyd fformat cyfarfodydd. Roedd rheolwr y GTI wedi cynhyrchu arweiniad i aelodau'r Bwrdd Rheoli a oedd yn egluro rolau a disgwyliadau. Cytunwyd ar raglen waith a nodai'r cyfraniadau a oedd eu hangen gan bartneriaid i sicrhau bodloni nodau cyffredinol y GTI ac amcanion penodol y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.
- Roedd y Bwrdd Rheoli wedi sefydlu proses sefydlu i gynorthwyo aelodau newydd o'r Bwrdd i ymgyfarwyddo â'r rôl.
- Roedd lefel y gynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli yn adlewyrchu ei statws fel is-grŵp, ac roedd modd cael mynediad at brif swyddogion drwy'r PDC. Roedd rheolwr y GTI yn aelod o'r PDC ac yn adrodd yn rheolaidd ynghylch gweithgareddau'r GTI. Roedd yn cyfarfod â'r prif weithredwr ac yn darparu adroddiadau cyfnodol i'r cabinet a'r cyngor hefyd.
- Roedd gan y GTI swyddog gwybodaeth penodedig, a gallai gynhyrchu ffurflenni cenedlaethol cywir ac amserol a adroddwyd ac a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd tîm rheoli'r Bwrdd Rheoli, y PDC a'r GTI. Roedd

partneriaid yn gwerthuso gwybodaeth am y gwasanaeth yn rheolaidd ar y cyd, i sicrhau rheoli perfformiad ac ansawdd mewn ffordd briodol.

- Roedd aelodau'r bwrdd yn effro i unrhyw dargedau croes i'w gilydd, ac ymdriniai â'r rhain yn briodol, er enghraifft gallai dull cosbi ac atal yr heddlu wedi arwain at nifer cynyddol o droseddwyr yn mynd i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, yn ogystal â chynnydd yn y gyfradd aildroseddu. Roedd penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud o ran y plant a'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r broses hon.
- Roedd rheolwr y GTI yn cwrdd ag asiantaethau partner y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ac roedd y tîm arolygu yn ystyried hon yn ffordd gynhyrchiol o ddatblygu camau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd.
- Roedd y GTI wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg a oedd ar waith ar draws yr awdurdod, a adolygwyd ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2006.

Arfer da

Proses gwybodaeth am ganlyniadau

Roedd y Bwrdd Rheoli wedi comisiynu proses gwybodaeth reoli canlyniad-ganolog i olrhain y cynnydd a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar ôl ymyrraeth, ac i ganiatáu i ymarferwyr fonitro cynnydd mewn achosion unigol. Ar y cyd â hyn, datblygwyd 'achos perffaith' enghreifftiol i gynorthwyo â lledaenu arfer gorau o ran cynllunio achos, rheoli a chofnodi.

Maes i'w wella:

- Nid oedd cynrychiolaeth yr AALl ar y Bwrdd Rheoli wedi'i datrys yn llawn ac roedd yn cael ei hystyried o hyd.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol:

- *Mae sefydliadau partner a'r GTI yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.*

Roedd gan y GTI adnoddau da, a chyda chymorth oddi wrth y Bwrdd Rheoli roedd yn gynhyrchiol o ran ceisio am gyllid gan ystod o adnoddau, gan gynnwys y BCI, Cymunedau Diogelach a Fframwaith.

Roedd y GTI yn cael ei gynrychioli'n actif ar bob partneriaeth berthnasol ar lefelau strategol a gweithredol, ac roedd yn gweithio'n effeithiol gyda nifer fawr o asiantaethau statudol ac annibynnol. Roedd rhai CLGau a phrotocolau ar gael, ond roedd nifer o'r rhain ar ffurf ddrafft ac roedd angen eu hadolygu. Roedd tystiolaeth o waith gweithredol drwy'r PDC i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Roedd gan y GTI ffocws cryf ar les a diogelu, ac o ganlyniad i ddiffygion yn y gwasanaeth a ddarparwyd mewn mannau eraill, ar brydiau roedd wedi gwneud neu gadw gwaith a oedd yn fwy priodol i gyfrifoldebau asiantaethau eraill.

Cryfderau:

- Roedd partneriaid yn bodloni eu cyfrifoldebau statudol o ran darparu adnoddau i'r GTI, ac mewn rhai enghreifftiau gwnaethant fwy pan fyddai'r angen yn cael ei ddangos yn eglur. Roedd yr adnoddau a oedd ar gael ar y pryd yn cael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, ac roedd y GTI yn weithredol hefyd o ran cael mynediad at ystod eang o gyfleoedd cyllido. Roedd y gyllideb yn cael ei rheoli'n dda, gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu i dîm rheoli'r GTI a'r Bwrdd Rheoli.
- Roedd gan y GTI nifer o brotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth a chytuno ar waith, a oedd yn sicrhau trefniadau gweithio trawsffiniol da.
- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r heddlu, terfynell heddlu yn y GTI, a mynediad at system rheoli cofnodion Niche; ac roedd pob un ohonynt yn gwella'r trefniadau gwaith a'r broses o reoli plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, gan gynnwys PPOau.
- Bu rheolwr y GTI yn ymwneud yn weithredol â datblygu'r BLlDP ac erbyn hyn roedd ei ddirprwy reolwr yn aelod llawn o'r BLlDP.
- Roedd gan y GTI bolisi rheoli risg, a oedd yn cynnwys cyfarfod amlasiantaeth wythnosol i gynllunio achosion; roedd y rhain wedi'u cysylltu, lle'r oedd yn briodol, â phrosesau CARA a MAPPA De Cymru. Roedd hyn yn caniatáu i'r GTI ymdrin â risg a pherygl, ac i fodloni ei gyfrifoldebau o ran diogelu mewn ffordd wedi'i ganolbwyntio a strwythuredig.
- Ar sail cynllun peilot, roedd tîm atal y GTI yn ymwneud â'r heddlu a thimau gweithredu cymunedol a oedd yn canolbwyntio ar niwsans lefel isel mewn cymunedau lleol er mwyn atal troseddu.
- Bu rheolwr y GTI yn actif o ran sefydlu trafodaethau uniongyrchol â chomisiynwyr iechyd, a chreu grŵp rheoli iechyd newydd i ddatblygu materion iechyd, yn arbennig ystyriaethau heb eu datrys o ran y berthynas rhwng CAMHS Arbenigol a'r GTI, gan gynnwys goruchwyliaeth a lleoliad y gweithwyr CAMHS a rhannu gwybodaeth.
- Roedd y GTI yn aelod gweithredol o Fframwaith a'r PDC, ac yr oedd y ddau ohonynt wedi darparu cyllid i'r GTI ar gyfer prosiectau ataliol. Roedd rheolwr y GTI yn cadeirio Grŵp 'Both ac Adenydd' Fframwaith a gydlynai, ar lefel strategol, ddatblygu a chyflwyno ystod o wasanaethau ataliol, gan gynnwys On Track, PCChI ac ysgolion cymuned-ganolog. Roedd y dirprwy reolwr a'r rheolwyr tîm yn ymwneud â nifer o is-grwpiau'r PDC a Fframwaith.

- Roedd y GTI yn gweithio'n dda gyda TTIau eraill yn Ne Cymru i alluogi cyflwyno gwasanaethau arbenigol ledled y rhanbarthau, er enghraifft prosiect Taith, a ddarparwyd gan Barnardos i blant a phobl ifanc a oedd yn arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol.

Arfer da

Cyfarfodydd cynllunio achos

Roedd rhan o gyfrifoldebau penodol y dirprwy reolwr yn cynnwys canolbwyntio ar ystyriaethau risg. Arweiniodd hyn at gyflwyno cyfarfod wythnosol i gynllunio achosion, a gadeiriwyd gan y rheolwyr tîm. Roedd hyn yn caniatáu i'r holl weithwyr perthnasol, gan gynnwys asiantaethau partner, ddod ynghyd i asesu ac adolygu achosion a oedd yn cynnwys PN uchel, tebygolrwydd uchel o aildroseddu neu ddiamddiffynnedd. Roedd y cyfarfodydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac arfer da, ac yn annog cydweithio.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd rhai protocolau a CLGau drafft wedi cael eu cwblhau na'u cyfathrebu'n eglur i staff.
- Nid oedd cyfraniad gwasanaethau addysg i waith craidd y GTI yn ddigonol i fodloni'r galw.
- Roedd diffyg llety addas i blant a phobl ifanc.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol*

Roedd gan y GTI agenda ar gyfer gwelliant parhaus. Roedd cyfrifoldebau newydd a rhai a oedd yn ymestyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff o 32 o staff cyfwerth ag amser llawn ym 1999, i fwy na 70 adeg yr arolygiad hwn. Gyda chyngor allanol, cynhaliwyd adolygiad llawn yn 2005, ac yn 2006 cafwyd ailstrwythuro a darparwyd llety ychwanegol. Roedd pedwar tîm daearyddol yn y GTI, ac roedd gan bob un ohonynt reolwyr achos a oedd yn gweithio mewn ardaloedd penodol, yn ogystal â staff eraill a ddarparai gwasanaethau penodol ar draws y GTI, er enghraifft cefnogai tîm y gogledd RhGDd a'r holl staff addysg. Ymdriniai pumed tîm ag atal yn unig, ac roedd yn cynnwys staff y PCChI, prosiect cyfiawnder adferol mewn ysgolion, a gweithwyr magu plant. Roedd gan bob tîm ei gynllun busnes ei hun a oedd yn cysylltu'n amlwg â'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ac a oedd yn ei lywio.

Cryfderau:

- Roedd y GTI wedi'i staffio'n dda, dim ond rhai swyddi gwag a fodolai ac roedd y GTI yn mynd ati i ymdrin â'r rhain, ac yn gyffredinol roedd ysbryd y staff yn uchel.
- Roedd mynediad at hyfforddiant awdurdod lleol a hyfforddiant arbenigol yn dda. Roedd pob aelod o staff wedi dilyn hyfforddiant diogelu plant, amrywiaeth a SWTI, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi dilyn hyfforddiant a oedd yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a thrais domestig hefyd. Anogwyd staff i ddilyn hyfforddiant proffesiynol (neu broffesiynol uwch); roedd nifer yn dilyn hyfforddiant ymarferol effeithiol y BCI, ac roedd gan reolwyr gyfle i ddilyn hyfforddiant rheoli.
- Roedd yr holl staff yn cael goruchwyliaeth strwythuredig reolaidd, ac roeddent o'r farn bod hyn yn ddefnyddiol iawn. Rhoddwyd sylw rheolaidd i anghenion datblygu hefyd. Roedd hyn yn cynnwys staff a secondiwyd, a oedd yn dweud iddynt gael goruchwyliaeth gan y GTI a chan reolwyr llinell eu hasiantaethau eu hunain. Roedd rheolwyr a fu yn eu swyddi am fwy na chwe mis wedi cael eu harfarnu'n rheolaidd ac roedden nhw, yn eu tro, yn goruchwylio ac yn arfarnu eu staff hwy yn rheolaidd. Roedd rhai o'r staff a secondiwyd yn cael eu harfarnu ar y cyd gan y GTI a'u hasiantaethau eu hunain; roedd eraill yn cael eu harfarnu gan eu hasiantaethau eu hunain. Cefnogwyd y rhain gan bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol y cytunwyd arnynt.
- Roedd creu swydd y dirprwy reolwr yn 2005 wedi caniatáu i reolwr penodedig ganolbwyntio ar weithrediadau mewnol y GTI.
- Roedd pum tîm y GTI yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm cefnogi busnes effeithiol.
- Roedd gan bob aelod staff, yn ogystal â gweithwyr sesiynol ac aelodau'r panel troseddau ieuenctid, wiriadau SCT cyfoes. Roedd yr arferion ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn drylwyr ac yn cyd-fynd ag arferion diogelu.
- Hyfforddwyd gwirfoddolwyr gan ddefnyddio deunyddiau cydnabyddedig y BCI ac roedd yr holl weithgareddau, yn ogystal â gwaith â phlant a phobl ifanc unigol, yn amodol ar asesiadau risg iechyd a diogelwch, a lywiwyd gan heddweision o fewn y GTI a chanddynt fynediad at wybodaeth CCH. Roedd polisi gweithiwr unigol actif ar waith.
- Roedd fforymau uwch ymarferwyr a rheolwyr achosion yn hwyluso rhannu arfer da, arloesedd a gweithredu arfer yn gyson. Roedd y GTI yn trefnu nifer o gyfarfodydd i hwyluso cyfathrebu da rhwng staff ac ag asiantaethau partner. Roedd tîm rheoli'r GTI wedi ymrwymo i ymagwedd ymgynghorol â staff, a bu'r tîm arolygu yn dyst i enghreifftiau o ymgynghori a chynnwys staff mewn mentrau pwysig ar gyfer y GTI.

Arfer da

Adeiladu tîm

Ar ôl aildrefnu'r GTI, yn achos pob tîm, cynhaliwyd diwrnod

adeiladu tîm a oedd yn cynnwys gweithgaredd grŵp. Datblygwyd pecyn adeiladu tîm. Rhoddodd cyfranogwyr sylwadau ar lwyddiant y diwrnodau hyn o ran creu ysbryd da yn y tîm. Cynhaliwyd diwrnodau eraill i ddatblygu ac adolygu cynlluniau'r timau.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd y broses sicrhau ansawdd ar gyfer yr ACDau a archwiliwyd gennym ni wedi ystyried asesiad Asset.
- Ni chytunwyd ar unrhyw drefniadau goruchwylio clinigol na goruchwylio rheolwyr rhwng CAMHS Arbenigol a'r GTI ychwaith.
- Nid oedd rhai staff yn adnabod materion PN yn ddigonol, ac nid oeddent yn dilyn dogfennau arweiniad GTI.

ASESIAD CYFFREDINOL O REOLI

Bernir bod yr adran hon yn rhagorol.

2. GWAITH YN Y LLYSOEDD

Dyfarniad allweddol:

- *Ceir perthynas waith dda rhwng y GTI a'r llys lleol.*

Roedd y GTI yn gwasanaethu dau lys ieuenctid lleol. Roedd ganddo berthynas waith gynhyrchiol â'r llysoedd lleol, ac amlygwyd hyn yn ystod arolygiad diweddar o'r llys ynadon. Disgrifiodd staff ac ynadon y llys eu perthynas â'r GTI yn un rhagorol, gan ddweud bod perfformiad staff GTI yn y llys 'o'r radd flaenaf bob tro'. Nid oedd y berthynas â Llysoedd y Goron mor gydlynol, ond rhoddodd staff wybod am ymateb cadarnhaol i'w hadroddiadau gan Lysoedd y Goron. Roedd dirprwy reolwr y GTI yn mynychu'r Grŵp Cynnydd Achosion Ieuenctid.

Cryfderau:

- Roedd y GTI wedi cynhyrchu *Llyfr Gwybodaeth i Ynadon,* a ddarparwyd i holl ynadon newydd y llys ieuenctid.
- Roedd gan y GTI un swyddog llys penodedig, a oedd hefyd yn gydlynydd cymorth mechnïaeth ac yn swyddog llety. Fe'i cefnogwyd ym mhob un o'r ddau lys ieuenctid wythnosol gan weithiwr GTI arall a chefnogaeth weinyddol, a oedd yn sicrhau cysondeb y gwasanaeth a gyflwynwyd.
- Roedd rota dyletswydd swyddfa i sicrhau argaeledd staff i fynychu llysoedd brys.
- Roedd tîm dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnig gwasanaeth ar ddyddiau Sadwrn a gwyliau banc; roedd y GTI yn darparu gwasanaeth cyngor wrth gefn iddo, ac roedd staff y GTI yn fodlon, yn ôl y galw, i fynychu'r llys. Roedd system ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddar am argaeledd llety i'r tîm dyletswydd brys.
- Roedd cyswllt ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd rhwng y GTI a'r llysoedd ieuenctid.
- Cyfrannodd y GTI at gyfnod sefydlu, hyfforddiant a chyfarfodydd tîm ynadon, ac roedd clercod y llysoedd yn ad-dalu hyn.

Arfer da

Llawlyfr yr Ynadon

Roedd y GTI wedi cynhyrchu *Llyfr Gwybodaeth i Ynadon*, a ddarparwyd i bob ynad newydd yn y llys ieuenctid. Roedd yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y GTI a'r rolau arbenigol a wnaed. Roedd yn cynnwys rhestr lawn o staff y GTI a'u swyddi. Fe'i hystyriwyd yn arloesiad gwych ac yn un a werthfawrogwyd gan ynadon.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd CLG De Cymru gyfan â'r llysoedd ieuenctid yn gyfredol, ac nid oedd y llysoedd yn ymwybodol o'i fodolaeth.
- Nid oedd y berthynas waith â Llysoedd y Goron mor gadarnhaol ag â'r llysoedd ieuenctid, yn arbennig o ran hysbysu am wrandawiadau.
- Nid oedd staff y GTI o'r farn bod y Grŵp Cynnydd Ieuenctid yn cyfarfod yn ddigon rheolaidd.
- Nid oedd hyfforddiant sgiliau llys yn cael ei ymgorffori'n rheolaidd yn y broses sefydlu staff.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y GTI yn y llysoedd.*

Roedd dau swyddog llys yn bresennol yn y ddau lys ieuenctid wythnosol. Roedd hyn yn caniatáu i'r GTI gynnal yr apwyntiad cyntaf â'r plentyn neu berson ifanc ar unwaith, wrth barhau i ddarparu gwasanaeth i'r llys. Roedd hyn yn briodol yn yr ardal hon, lle'r oedd pellteroedd a chyfathrebu yn golygu bod ymweliadau swyddfa yn anodd.

Cryfderau:

- Roedd swyddogion llys yn cael amser yn y llys i gyfweld plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ar unwaith ar ôl iddynt gael eu dedfrydu neu eu gwneud yn destun goruchwyliaeth a chymorth mechnïaeth. Rhoddwyd gwybodaeth berthnasol iddynt, roedd modd iddynt drafod a llofnodi eu contract cychwynnol â'r GTI, a threfnwyd dyddiad eu hapwyntiad nesaf.
- Roedd plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu remandio yn cael eu cyfweld a'u hasesu am ddiamddiffynnedd, a throsglwyddwyd y wybodaeth i'r sefydliad diogel ar yr un diwrnod. Roedd cysylltiadau cyfathrebu da â'r sefydliadau diogel.
- Amlygwyd ymatebion plant a phobl ifanc i'r gorchmynion cynharach mewn adroddiadau dilynol, ac roedd y llys yn ymwybodol ac yn hyderus o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y GTI.
- Roedd torri amodau RhGDd yn gyflym ac yn rhoi cyfle i'r llys ohirio i brofi cydymffurfiad cyn cymryd camau eraill, mwy difrifol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.*

Bu'r defnydd o remand a remand gwarchodol yn destun cryn sylw gan y Bwrdd Rheoli, a oedd wedi gwneud cais am ddadansoddiad am nad oedd y GTI yn cyrraedd y targedau perfformiad a osodwyd gan y BCI yn rheolaidd. Dangosodd y dadansoddiad hwn ostyngiad sylweddol mewn niferoedd ar gyfer remand a remand gwarchodol dros gyfnod o chwe blynedd. Fodd bynnag, am i'r gyfradd droseddu gyffredinol ostwng yn sylweddol hefyd, mewn termau canrannol, nid oedd remand wedi dangos gostyngiad cyfrannol sylweddol.

Cryfderau:

- Roedd enw da i'r gweithiwr goruchwylio a chefnogi mechnïaeth, ac roedd ar gael yn y llys drwy'r amser. Gwnaed gwaith paratoadol trylwyr â phlant a phobl ifanc cyn yr ymddangosiad llys.
- Derbyniodd y GTI restr llys ymlaen llaw, ac ychwanegodd staff gweinyddol at y wybodaeth hon â holl wybodaeth y GTI am y plentyn neu'r person ifanc, gan sicrhau drwy hynny fod swyddogion llys yn cael eu briffio'n llawn.
- Roedd gan y GTI drefniant fod y llys yn darparu, ymlaen llaw, yr holl fanylion am y plant a'r bobl ifanc a oedd yn ymddangos gerbron y llys ac a oedd mewn risg o gael remand gwarchodol, diogel neu eu remandio i lety awdurdod lleol, neu y gallai fod angen pecyn goruchwyliaeth neu gefnogaeth mechnïaeth arnynt. Cysylltwyd â phlant a phobl ifanc y diwrnod cyn yr achos llys, a thrafodwyd yr holl ddewisiadau â nhw a chytuno ar gynllun. Darparwyd pecynnau cefnogaeth a goruchwyliaeth mechnïaeth a oedd yn gymesur â difrifoldeb y drosedd.
- Trafodwyd yr holl achosion remand tebygol yn ystod y fforwm cynllunio achos wythnosol, gyda'r nod o ostwng statws y remand.
- Roedd y GTI wedi datblygu cynllun meithrin remand, a reolwyd o fewn y GTI ond a oedd yn rhan o wasanaeth meithrin yr awdurdod lleol. Darparai'r cynllun dri gwely remand neu DHThD, ac roeddent yn cael eu defnyddio'n dda.
- Ffurfiwyd gweithgor i ymdrin â materion llety i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheiny a oedd yn ymwneud â'r GTI.
- Roedd gan y GTI swyddog GCH ymrwymedig a oedd yn cysylltu â'r ystâd gadarn i ymdrin â diamddiffynnedd ac i sicrhau i weithdrefnau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm gael eu dilyn a gwasanaethau eu darparu. Roedd y swyddog hwn yn sicrhau cynnal cyfarfodydd cynllunio hefyd, ac yn sicrhau ymdrin yn rheolaidd â'r posibilrwydd o gael goruchwyliaeth a chefnogaeth mechnïaeth. Roedd plant a phobl ifanc a oedd yn cael remandiau diogel neu warchodol yn cael eu

gweld o fewn yr amserlen safonol genedlaethol, ac wedi hynny ymwelwyd â nhw yn wythnosol gan y swyddog GCH.

- Roedd RhGDd ar gael fel rhan o raglen goruchwyliaeth a chefnogaeth mechnïaeth.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd diffyg llety addas i fodloni anghenion plant a phobl ifanc nad oeddent yn bodloni meini prawf y ddarpariaeth feithrin ar remand.
- Lefel gymharol isel o ddefnydd a wnaed o gefnogaeth mechnïaeth a goruchwyliaeth mechnïaeth.
- Roedd y GTI wedi defnyddio'r cynllun meithrin ar remand i gynorthwyo i roi llety brys i blant a phobl ifanc. Er bod hyn yn arloesol, roedd hefyd mewn perygl o gyfaddawdu'r lleoedd gofal meithrin craidd.
- Roedd ymwybyddiaeth gyfyng o argaeledd meithrin remand a darpariaeth gwelyau DHThD gan Heddlu De Cymru, ac yn arbennig ymysg personél y ddalfa.
- Nid oedd y ddarpariaeth goruchwyliaeth a chefnogaeth mechnïaeth yn uchafu'r cyfleoedd a gynigiwyd gan RhGDd er mwyn darparu'r ystod fwyaf bosibl o ddewisiadau amgen i'r llys ar gyfer remand diogel neu warchodol.

Dyfarniad allweddol:

- *Cynorthwyir llysoedd i wneud penderfyniadau cytbwys trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da gan y GTI.*

Archwiliodd arolygwyr 22 o ACDau ac roedd yr ansawdd yn amrywio. Wrth asesu ansawdd cyffredinol, sgoriwyd 64% yn foddhaol neu'n well na hynny, gydag un yn cael ei asesu'n rhagorol. Roedd y GTI yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol a oedd yn cynorthwyo i baratoi adroddiadau gan ddefnyddio Asset.

Cryfderau:

- Roedd rheolwyr achos yn cwblhau adroddiadau o fewn amserlen y safonau cenedlaethol ac, fel arfer, yn mynychu'r llys i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc a chyflwyno eu hadroddiadau.
- Roedd yr holl ACDau yn seiliedig ar Asset, ac roedd lefel dda o gydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran amserlenni, cyfweld â phlant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr (lle'r oedd yn briodol) a sicrhau gwybodaeth.
- Roedd cynigion yn eglur ac yn gymesurol â difrifoldeb y drosedd (100%) ac roedd lefel uchel o gysondeb rhwng y cynnig a'r ddedfryd (91%).

- Roedd adroddiadau yn bodloni gofynion y safonau cenedlaethol o ran iaith, y ffaith eu bod yn cynnwys gwybodaeth wiriedig a chywir, ac o ran bod yn ddealladwy i blant a phobl ifanc.
- Sgoriodd yr adroddiadau yn dda o ran asesu diogelwch (87%), amrywiaeth (91%) a risg aildroseddu (91%).
- Roedd rheolwyr yn dilyn proses sicrhau ansawdd ar gyfer ACDau, ac roedd y GTI yn mynd ati i geisio adborth gan ddedfrydwyr am ansawdd adroddiadau.
- Nid oedd y GTI yn darparu adroddiadau terfynu tystiolaeth ar blant a phobl ifanc oni bai bod Asset diweddar ar gael ac i hyn gael ei gytuno'n ffurfiol â'r llys.

Arfer da

Digwyddiad blynyddol i ynadon

Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol i ynadon y llys ieuenctid. Roedd y digwyddiad hwn yn arddangos gwasanaethau'r GTI i'r llys, yn cyflwyno enghreifftiau o ymyriadau llwyddiannus ac yn rhoi gwobrau i blant a phobl ifanc. Roedd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd estynedig yn mynychu'r digwyddiad, a gynhaliwyd ar safle prifysgol leol. Dilynwyd rhan fwyaf ffurfiol y noswaith gan gyfle i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd gyfarfod ag ynadon a staff y GTI. Eleni, gofynnodd yr ynadon am wybodaeth ynglŷn ag atal a gwaith cyn y llys. Cyflwynwyd y wybodaeth hon ar ffurf drama a berfformiwyd gan staff y GTI. Roedd ynadon yn arbennig o groesawgar o gael cyfle i weld canlyniadau cadarnhaol ac i gwrdd â'r plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd.

Meysydd i'w gwella:

- Cafodd y rhaglen gyfrifiadur a oedd yn cael ei defnyddio i gynhyrchu ACDau dderbyniad cymysg gan staff, ac nid oedd yr holl staff wedi cael eu hyfforddi i'w defnyddio.
- Rhoddwyd sgôr o 64% i asesu PN, ac enillodd y gallu i wahaniaethu rhwng PN a'r tebygolrwydd o aildroseddu sgôr o 54% yn unig.
- Nid oedd ACDau yn dadansoddi'r drosedd yn ddigonol.
- Ymdriniwyd yn foddhaol â'r effaith ar y dioddefwr mewn ychydig dros hanner yn unig o'r adroddiadau a arolygwyd gennym.
- Nid oedd digon o fewnbwn gan weithwyr arbenigol i asesiadau a chwblhau ACDau, yn arbennig o ran y rhaglenni i'w cynnig.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH YN Y LLYSOEDD

Bernir bod yr adran hon yn dda.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

3.1 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.*

Roedd aelodau tîm rheoli'r GTI yn aelodau gweithredol o is-grwpiau Fframwaith ac yn sicrhau bod atal troseddu ac aildroseddu yn parhau'n uchel ar agendâu'r grwpiau hyn. Roedd yr awdurdod yn gweithredu prosiect On Track, a gyllidwyd i ddechrau gan y Swyddfa Gartref.

Yn ddiweddar, roedd y GTI wedi sefydlu tîm atal ymroddedig a ddarparai ystod o wasanaethau i dimau eraill o fewn y GTI i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd a oedd yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

Cryfderau:

- Cafwyd lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael mynediad i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, gyda'r nifer yn gostwng o 239 ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2005, i 188 ar gyfer yr un cyfnod yn 2006.
- Roedd gan yr awdurdod lleol, yn gyffredinol, agenda atal ac roedd yr AALl yn arbennig o ragweithiol. Roedd wedi penodi 13 o weithwyr clwstwr ysgol-ganolog ac roedd y GTI wedi cronni cyllid gyda thair ysgol gymunedol er mwyn darparu cydweithio ar safleoedd yr ysgolion hyn i helpu i weithredu'r PCChI a chefnogi plant a phobl ifanc 8-13 oed a dargedwyd.
- Roedd y swyddog GCH, ar y cyd â heddwas a gweithiwr addysg, yn cynnig ystod o ymweliadau ysgol i drafod ystyriaethau troseddu a chadwraeth â'r plant a'r bobl ifanc yn yr ysgol.
- Roedd prosiect Momentum yn brosiect addysg anffurfiol a oedd yn adeiladu ar ddiddordeb plant a phobl ifanc mewn ceir a beiciau. Roedd wedi helpu cyfranogwyr i ddatblygu ymagwedd gadarnhaol ac i archwilio ymagweddau diogel a chyfrifol at ddefnyddio heolydd.
- Roedd y PCChI, a oedd newydd ei sefydlu, yn defnyddio Onset ac roedd ansawdd asesiadau yn dda iawn. Roedd y rhwydweithiau atgyfeirio yn datblygu ac roeddent yn cynnwys defnyddio prosesau ceryddu'r heddlu i nodi atgyfeiriadau posibl i'r PCChI.
- Roedd rhaglen magu plant cynhwysfawr ac effeithiol a ddarparai gefnogaeth i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc 10-18 oed er mwyn atal troseddu neu'r risg o droseddu. Roedd mentrau newydd yn cael

eu datblygu, gan gynnwys cynadledda grwpiau teuluol, mentoriaid rhieniol a rhieni/gofalwyr a'u plant yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd.

- Roedd Partneriaeth ar gyfer Ieuenctid yn brosiect a weithredwyd gan y GTI a 3ydd Bataliwn (Cadlanciau) Catrawd Frenhinol Cymru. Cwblhawyd y cwrs preswyl gweithgareddau pedwar diwrnod yn llwyddiannus gan fwy na 90% o'r cyfranogwyr, ac roedd iddo gymhwyster RhCA Lefel un. Adolygwyd y cwrs yn annibynnol gan NACRO hefyd, a ganfu effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfraddau troseddu am y tro cyntaf ac aildroseddu ar ôl i blant a phobl ifanc gwblhau'r cwrs.
- Roedd y GTI yn cyflogi gweithiwr ieuenctid a arbenigai mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar y cyd â'r heddlu a thimau gweithredu cymunedol, targedwyd mannau â phroblemau niwsans ieuenctid a chynhaliwyd gwaith gyda phlant a phobl ifanc i leihau effaith eu hymddygiad ar y gymdogaeth. Roedd yr awdurdod lleol a'r heddlu eisoes yn adrodd am effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol, a nifer fach o blant a phobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf a oedd dan orchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gwnaed gwaith grŵp i roi gwybod i blant a phobl ifanc am ystyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut y gallai effeithio'n negyddol ar fywydau pobl. Roedd un o'r grwpiau wedi cynhyrchu ffilm a oedd wedi ennill gwobr i gefnogi'r ymagwedd hon.
- Roedd gan adran gwasanaethau diwylliannol yr awdurdod lleol agenda ynghylch cynhwysiant cymdeithasol a oedd yn caniatáu i'w dîm gynnig gwasanaethau i'r GTI. Roedd ystod eang o brosiectau celfyddydau a gweithgareddau ar gael, ac roedd y tîm yn hyblyg yn ei ymagwedd at gyflwyno gwasanaethau mewn ffyrdd a oedd yn hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r GTI.
- Ym mhob prosiect atal, roedd y GTI yn hyrwyddo diogelu plant a phobl ifanc. Roedd yr holl staff a oedd yn ymwneud â hyn dan amodau gwiriadau SCT a phroses recriwtio gadarn. Roedd y PCChI yn defnyddio System Wybodaeth Reoli Universal, a oedd yn cynnwys asesu PND.
- Roedd gwaith atal yn ystyried anghenion amrywiaeth unigol. Roedd modd i'r GTI ymateb i anghenion plant a phobl ifanc Cymraeg eu hiaith. Roedd prosiectau yn cynnwys staff gwrywaidd a benywaidd, a lle bo'n briodol, darparwyd ymyriadau gwrywaidd a benywaidd ar wahân. Roedd prosiectau Splash a Splosh ar agor i blant a phobl ifanc ag anableddau, ac roedd y tîm atal yn ymwybodol o anableddau 'cudd' fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd a phlant a phobl ifanc a chanddynt sgiliau llythrennedd cyfyngedig. Roedd Grŵp Merched yn cael ei gynnal o bryd i'w gilydd, ac roedd y GTI wedi datblygu pecynnau gwaith i ferched a menywod ifanc ynghylch pendantrwydd a dinasyddiaeth.

- Cynhwyswyd y staff magu plant wrth ddatblygu strategaeth magu plant ledled yr awdurdod, a gynhwysai grŵp cymorth i dadau, cefnogaeth i rieni ifanc, a rhaglen rhyddid rhag trais domestig.

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd digon o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod cynlluniau atal y GTI a phartneriaid eraill yn ffurfio strategaeth atal gydlynol ar gyfer yr awdurdod cyfan.
- Roedd diffyg ffurfioli'r gwaith rhwng rhai o'r asiantaethau, er enghraifft, sicrhau bod amcanion yr adran gwasanaethau diwylliannol a'r GTI ill dau yn cael eu bodloni, a bod gwasanaethau diwylliannol yn cael eu hintegreiddio'n well i gynlluniau ymyrryd y GTI.
- Nid oedd yn eglur bob tro sut roedd ymyriadau penodol yn bodloni anghenion penodol plant a phobl unigol, na sut roeddent yn ffurfio rhan o raglen ymyriadau CAMPUS.
- Roedd cyllid byrdymor yn faes pryder i lawer o'r prosiectau a swyddi o fewn y tîm atal.

3.2 Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.*

Roedd y GTI yn dangos defnydd cyson ac effeithiol ar Asset yn ystod cyfnodau cychwynnol, adolygu a therfynol gorchymyn. Roedd rhai pryderon ynghylch asesu'r PND. Fodd bynnag, pan fyddai asesiad PND llawn yn cael ei wneud, byddai'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn cael eu hatgyfeirio at reolwr ac, wedi hynny, yn cael eu rheoli'n dda.

Cryfderau:

- Adroddodd y GTI leihad mewn aildroseddu o flwyddyn i flwyddyn, a gadarnhawyd gan ffigurau perfformiad diweddaraf y BCI a ddangosai leihad o 33% mewn troseddu cyn y llys, lleihad o 20% mewn cosbau haen gyntaf, a lleihad o 6.7% mewn cosbau cymunedol.
- Yn yr achosion a archwiliwyd gennym ni, cwblhawyd 97% o'r holl asesiadau Asset cychwynnol yn unol â safonau cenedlaethol o ran amseroldeb, a 94% ohonynt o ran ansawdd. Yn yr un modd, roedd sgoriau yn uchel ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc a'u teuluoedd lle'r oedd yn briodol, ac roedd asesiadau Asset ar gael yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol.
- Rhoddwyd parch uchel iawn i ystyriaethau amrywiaeth ac anghenion penodol ac unigol y plentyn neu'r person ifanc, fel y manylwyd gan eu rhieni/gofalwyr. Ym mhob achos ac eithrio un, cynhwyswyd y plentyn neu'r person ifanc yn yr asesiad ac roedd wedi llenwi ffurflen *What do*

you think?. Ystyriwyd anghenion amrywiaeth ar sail unigol ac, yn benodol, ymdriniwyd ag anghenion dysgu penodol mewn ffyrdd creadigol. Rhoddwyd sylw i ystyriaethau o ran rhyw pobl, ac roedd y GTI o'r farn bod modd iddo fodloni unrhyw anghenion iaith Gymraeg.

- Barnwyd fod ymyriadau yn cyd-fynd yn agos â'r PN asesedig ym mhob achos, ac roeddent yn ymdrin ag ymddygiad troseddol.
- Cynhaliwyd adolygiadau rheolaidd a chynhwyswyd y rheolwr llinell.
- Cyflwynwyd ymagwedd risg ganolog at gyflwyno gwasanaethau, gyda chysylltiadau â phrosesau MAPPA a CARA, ac fe'i cryfhawyd gan y fforwm cynllunio achosion wythnosol.
- Roedd y GTI yn perfformio yn dda iawn o ran cydymffurfio â safonau cenedlaethol ac amlder apwyntiadau ac ymweliadau cartref a drefnwyd. Roedd cydymffurfio da hefyd o ran y cysylltiadau a gadwyd gan blant a phobl ifanc.
- Mewn 73% o achosion nid oedd unrhyw dystiolaeth o weithgaredd troseddol tra oedd plentyn neu berson ifanc dan amod gorchymyn, ac roedd 67% yn dangos gwelliant yn y sgôr Asset diweddaraf.
- Roedd y GTI wedi sefydlu proses effeithiol ar gyfer rheoli rhybuddion terfynol, a oedd yn cynnwys y ddau heddwas yn y GTI a defnyddio clinig rhybuddion terfynol. Roedd gan heddweision y GTI fynediad at holl systemau TG perthnasol Heddlu De Cymru yn y GTI, gan gynnwys y CCH ac, yn benodol, system rheoli cofnodion newydd Niche.
- Roedd paneli troseddau ieuenctid wedi'u trefnu'n dda, ac roedd aelodau'r paneli yn adrodd iddynt gael hyfforddiant da a chymorth parhaus. Paratowyd adroddiadau ysgrifenedig i'r panel bob tro, ac roeddent yn fanwl ac o ansawdd da. Roedd y contract yn cael ei gyflwyno mewn ffordd effeithiol iawn, a oedd yn ystyried anghenion penodol y plentyn neu'r person ifanc.
- Roedd y cydlynydd RhGDd yn mynd ati i sganio SWTI er mwyn sicrhau nodi plant a phobl ifanc a allai elwa ar y rhaglen a/neu a fyddai'n addas ar ei chyfer. Aseswyd bod y RhGDd yn cael ei rheoli'n dda ac yn effeithiol.
- Roedd gan y GTI ystod dda o ymyriadau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys *Teen Talk*, Grŵp Merched a phrosiect menter hil. Roedd staff arbenigol a rheolwyr achos yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn.
- Cynigiwyd y cynllun DAÔ trwy drefniant partneriaeth, ac roedd yn caniatáu i blant a phobl ifanc gael mynediad, ar sail wirfoddol, at gefnogaeth ddwys ynghylch camddefnyddio sylweddau ac anghenion allweddol eraill fel llety. Roedd yr ymyriadau DAÔ yn cefnogi pecynnau cyflwyno cynhwysfawr.
- Roedd gan y GTI CLG â Phrosiect Taith Barnardos, a oedd yn asesu ac yn darparu ymyrraeth yn achos plant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol.

- Darparwyd camau atgyweirio gan brosiect gwella, a oedd yn cynnig ystod o gamau ymyriadau atgyweirio a chyfiawnder adferol.

Meysydd i'w gwella:

- Ni chysylltwyd â darparwyr addysg mewn 28% o achosion i lywio cwblhau Asset, a dywedodd rhai aelodau staff wrth arolygwyr y penderfynwyd peidio â gwneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys rhybuddion terfynol.
- Roedd pryder ynglŷn â'r ffordd y llenwyd rhan niwed difrifol yr asesiad Asset mewn 38% o'r achosion a arolygwyd. Rhoddwyd diffyg ystyriaeth i'r drosedd ei hun wrth bennu risg.
- Roedd CGCau yn anghyson o ran ansawdd ac nid oeddent yn cynnwys amcanion CAMPUS, ac roedd diffyg elfen ynglŷn â'r dioddefwr neu elfen cyfiawnder troseddol yn perthyn i rai ohonynt. Roedd y dull o gofnodi adolygiadau rheoli a phenderfyniadau ar y cynlluniau hyn yn anghyson hefyd.
- Nid oedd paneli troseddau ieuenctid yn cyfarfod yn unol ag amserlenni safonau cenedlaethol o ganlyniad i ddiffyg argaeledd aelodau'r panel. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, roedd carfan newydd o aelodau wedi'u recriwtio a'u hyfforddi.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y GTI.*

Roedd y GTI yn darparu ystod o wasanaethau trwy weithwyr iechyd a oedd yn rhan o'r tîm a thrwy atgyfeirio at asiantaethau eraill. Roedd yr adnoddau a oedd ar gael i'r GTI ym maes camddefnyddio sylweddau yn cynnwys dau weithiwr camddefnyddio sylweddau Haen 2 arbenigol o GCTA ac un nyrs camddefnyddio sylweddau Haen 3 CAMHS arbenigol.

Cryfderau:

- Roedd tystiolaeth i atgyfeiriadau priodol o ran iechyd corfforol (100%) a chamddefnyddio sylweddau (92%) gael eu gwneud, a chafwyd cynnydd o ran ymdrin â ffactorau troseddogenig yn y ddau faes hyn.
- Gwnaed atgyfeiriadau priodol at y gweithiwr iechyd ar gyfer asesu plant a phobl ifanc, ac roedd staff y GTI yn defnyddio'r gweithiwr iechyd hefyd i gael cyngor a mynediad at wasanaethau eraill. Nodwyd iechyd rhywiol, ysmygu, alcohol a ffordd o fyw eisteddog fel y problemau mwyaf cyffredin.
- Roedd ystod dda o ymyriadau unigol ac ymyriadau grŵp ar gael, gan gynnwys hyrwyddo iechyd unigolion, iechyd rhywiol, cefnogaeth a chynghori. Roedd mewnbynnau hyrwyddo iechyd ac iechyd rhywiol ar gael ar gyfer y Grŵp Merched.

- Roedd y gweithiwr iechyd yn cysylltu â'r nyrs arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, ac roedd enghreifftiau da o gydweithio rhyngasiantaethol, gan gynnwys gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth carchardai a chysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol a sefydliadau iechyd eraill i gynnig gwasanaeth di-dor. Enghraifft o hyn oedd y cymorth i famau beichiog trwy gydweithio ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
- Mynychai'r gweithiwr iechyd arbenigol fforwm cynllunio achosion wythnosol y GTI, a oedd yn hwyluso atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth.
- Er bod problemau o ran cael mynediad i CAMHS Arbenigol, roedd proses llwybr carlam ar gyfer atgyfeiriadau brys. Roedd protocol pontio rhwng CAMHS Arbenigol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion ac roedd y TThDC yn cynnig cefnogaeth gymunedol ddwys.
- Cynhaliwyd cynllun peilot CAMHS llwyddiannus a gyllidwyd gan Grŵp Arweinyddiaeth Cyffredinol De Cymru, ac roedd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi sicrhau cyllid i gymryd ei le oddi wrth Fframwaith. Roedd gan y GTI sefydliad ar gyfer gweithiwr iechyd meddwl CAMHS a swydd camddefnyddio sylweddau CAMHS.
- Roedd gweithwyr cyffuriau arbenigol GCTA yn cynnig asesiadau cynhwysfawr, a gwblhawyd mewn partneriaeth â'r plentyn neu'r person ifanc. Defnyddiwyd ffurflenni adborth ar gyfer yr holl ymyriadau.
- Roedd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau y GCTA yn bodloni ei darged o ran rhoi sylw i achosion cyn pen pum niwrnod gwaith a'u trin cyn pen deng niwrnod.

Meysydd i'w gwella:

- Ar lefel yr ymarferwyr, polisi drafft rhannu gwybodaeth yn unig oedd ar waith rhwng gweithwyr CAMHS Arbenigol a gweithwyr y GTI, ac roedd diffyg rhoi hwn ar waith yn llawn yn effeithio'n anffafriol ar ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau.
- Am amryw o resymau, roedd y ddwy swydd CAMHS Arbenigol yn y GTI yn wag, a olygai bod bwlch sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth. Mewn 62% o achosion yn unig y gwnaed atgyfeiriadau priodol ar gyfer iechyd meddwl ac iechyd emosiynol.
- Mynediad cyfyngedig oedd at CAMHS Arbenigol, ac nid oedd modd iddo ymateb i dargedau'r GTI o ddarparu asesiad brys cyn pen pum niwrnod o dderbyn atgyfeiriadau neu cyn pen 15 niwrnod ar gyfer achosion nad oeddent yn rhai brys. Rhwng tri a phedwar mis oedd hyd rhestr aros y CAMHS Arbenigol.
- Nododd tîm rheoli'r GTI bod gan ei ddefnyddwyr gwasanaeth angen heb ei fodloni am wasanaeth dadwenwyno cymunedol ac yn y cartref. Roedd trafodaethau ar y gweill i benderfynu a fyddai'r nyrs camddefnyddio sylweddau Haen 3 CAMHS Arbenigol yn darparu'r

gwasanaeth hwn, gan gydweithio â meddygon teulu neu CAMHS Arbenigol.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y GTI.*

Roedd gan y GTI ethos diogelu cryf. Bodolai dogfen ryngwynebol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r GTI a oedd wedi'i hadolygu yn ddiweddar. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng timau rheoli'r ddau wasanaeth, ac roedd cynlluniau yn cael eu datblygu i weithredu'r cytundeb a gwella cysylltiadau gwaith.

Cryfderau:

- Roedd tystiolaeth ym mhob achos a adolygwyd gennym fod gwiriadau'n cael eu gwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â statws plentyn neu berson ifanc o ran y gofrestr amddiffyn plant neu Dderbyn Gofal. Roedd cysylltiadau eglur â'r gwasanaethau cymdeithasol o ran diogelu plant ac atgyfeiriadau plant mewn angen, er bod rhai tensiynau ynghylch trothwyon a chymhwyster am wasanaethau. Gwelwyd enghreifftiau o gydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol trwy bresenoldeb staff y GTI mewn cyfarfodydd diogelu plant ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, a phresenoldeb staff gwasanaethau cymdeithasol mewn cyfarfodydd cynllunio achosion GTI.
- Roedd ymagwedd risg-ganolog y GTI yn asesu ac yn targedu diamddiffynnedd. Ym mhob achos a archwiliwyd gennym, cymerwyd camau priodol i ymdrin â diamddiffynnedd y plentyn neu'r person ifanc.
- Roedd pob aelod o staff y GTI a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc wedi cael hyfforddiant diogelu plant.
- Roedd gan yr holl staff, gweithwyr sesiynol a gwirfoddolwyr wiriadau SCT cyfredol.
- Roedd gan y GTI CLG â phrosiect Taith, a ddarparai wasanaeth asesu ac ymyrryd arbenigol i blant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol, o rybuddion terfynol ymlaen.
- Estynnwyd y prosiect cyfiawnder adferol mewn ysgolion i gynnwys unedau preswyl y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod, ac roedd staff yr unedau hyn wedi cael hyfforddiant cyfiawnder adferol.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd angen codi ymwybyddiaeth o'r cytundeb rhyngwynebol ymysg staff y GTI a staff y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd lle am drafodaethau pellach ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth, ac ynglŷn â throthwyau a chymhwyster am wasanaethau.

- Er ei fod yn gwella, roedd presenoldeb asiantaethau eraill yn y cyfarfodydd cynllunio achosion yn anghyson o hyd.
- Adeg yr arolygiad, nid oedd hyfforddiant asesu wedi sicrhau ymdrin yn llawn ag ystyriaethau diogelu a diamddiffynnedd a PN.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.*

Roedd y GTI yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i wella canlyniadau addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc. Roedd gweithio'n agos gyda phartneriaid yn rhoi mynediad at ystod eang o brosiectau a gweithgareddau addysg i blant a phobl ifanc nad oeddent yn mynychu ysgolion y brif ffrwd, ac roedd y ddarpariaeth amrywiol hon yn darparu ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc bron.

Ychydig iawn o blant a phobl ifanc nad oeddent yn derbyn addysg amser llawn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu lleoli yn gyflym. Yn 2005/2006, roedd 85.6% mewn CHA amser llawn ar ddiwedd eu hymgysylltiad â'r GTI. Roedd gan y GTI un gweithiwr addysg arbenigol amser llawn i wasanaethu 18 o ysgolion uwchradd; 1.5 gweithiwr CHA ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn hŷn nag 16 oed; a hanner diwrnod yr wythnos gan seicolegydd addysg.

Cryfderau:

- Roedd yr AALl wedi cydnabod bod gormod o eithriadau tymor byr ac wedi gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu a'r gwasanaeth lles addysg i drafod y pwnc â phenaethiaid ysgol, i'w gwneud yn ymwybodol o'r effaith negyddol ar gymunedau lleol o ran niwsans lefel isel ac ymddygiad troseddol.
- Roedd plant a phobl ifanc hyd at 19 oed yn cael cefnogaeth dda gan seicolegydd addysg a oedd yn gweithio gyda'r GTI i gwblhau asesiadau addysgiadol. Roedd y seicolegydd yn barod i asesu plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel i hwyluso darpariaeth briodol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.
- Roedd cysylltiadau cynhyrchiol agos rhwng y GTI a Gyrfa Cymru, a chysylltiadau arbennig o dda rhwng Gyrfa Cymru a gweithwyr addysg a CHA y GTI y RhGDd. Roedd hyn yn sicrhau darparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud â'r GTI.
- Roedd y GTI yn gwneud defnydd da o dîm achredu Rhondda Cynon Taf i helpu plant a phobl ifanc i ennill cymwysterau priodol, fel dyfarniadau arweinwyr chwaraeon a dyfarniadau RhCA eraill.
- Roedd plant a phobl ifanc yn elwa ar gysylltiadau da y GTI â chynllun Gwobr Dug Caeredin ac Addysg Awyr Agored. Roeddent yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau hamdden strwythuredig.

- Roedd ysgolion Rhondda Cynon Taf yn elwa ar gymryd rhan mewn prosiect cyfiawnder adferol, sef ymagwedd amlasiantaethol at ddatrys gwrthdaro rhwng plant a phobl ifanc yn yr ysgol.

Arfer da

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc a chanddynt anawsterau llythrennedd

Roedd GCTA yn gweithio gyda pherson ifanc 16 oed a chanddo anghenion arbennig, na allai ddarllen nac ysgrifennu. Darparwyd addysg ynglŷn â chyffuriau ar ffurf lluniau a dyluniadau a wnaed mewn partneriaeth â'r person ifanc. Roedd yn deall y risgiau i'w iechyd o ganlyniad i yfed gormodol, ac nid oedd wedi atgwympo.

Datblygwyd gêm gardiau cyffuriau ar sail gêm 'top trumps'. Roedd yn y cyfnod peilot, ond roedd wedi cael derbyniad da iawn gan y plant a'r bobl ifanc, a oedd yn gweld y cardiau yn ddefnyddiol, nid yn unig i gael gwybodaeth ond hefyd yn ffordd o ddechrau siarad am eu problemau cyffuriau â'u cyfoedion a chyda'r gweithwyr proffesiynol.

Meysydd i'w gwella:

- Ar brydiau, roedd diffyg eglurder ymysg staff yr AALl ynghylch rôl y GTI a chyfrifoldeb pwy oedd addysgu plant a phobl ifanc a oedd y tu allan i'r system ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.
- Adeg yr asesiad Asset cychwynnol, nid oedd gweithwyr y GTI yn cysylltu â'r AALl yn rheolaidd i gael gwybodaeth am y plentyn neu'r person ifanc, ac mewn rhai achosion gwnaed penderfyniad pwrpasol i beidio â rhoi gwybod i ysgolion am ymgysylltiad plentyn neu berson ifanc â'r GTI.
- Nid oedd plant a phobl ifanc ar draws y GTI yn cael digon o fynediad at asesiadau ar gyfer sgiliau sylfaenol na dulliau o gyflwyno'r gwasanaethau hyn. Yn ogystal, nid oedd gan yr holl blant a phobl ifanc ar draws y GTI gynlluniau dysgu unigol hyd yn hyn, fel yr argymhellwyd gan y BCI. Cyflwynwyd pro fforma i blant a phobl ifanc 17 oed ac yn hŷn, ond roedd y GTI yn ddibynnol ar ddarparwyr i'w cwblhau.
- Roedd proses atgyfeirio ffurfiol i hyfforddi plant a phobl ifanc a oedd yn hŷn nag 16 oed ac a oedd o dan oruchwyliaeth y GTI, ond nid oedd proses debyg i'r rheiny a oedd yn iau nag 16 oed ac yr oedd angen i'r AALl eu gosod.
- Yn Rhondda Cynon Taf, roedd prinder lleoedd dysgu yn y gwaith i blant a phobl ifanc yn gyffredinol. Roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar gyflawniad plant a phobl ifanc, ac roedd yn eu digalonni.
- Roedd rhannu anffurfiol da ar wybodaeth rhwng gweithwyr ar lefel ymarferwyr, ond nid oedd y ddarpariaeth brotocolau ac arweiniad ar

gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid ar lefel strategol wedi'i ddatblygu cystal.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan eu cysylltiad trwy ymgynghori ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y GTI.*

Bu'r GTI yn weithredol o ran datblygu systemau ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Sefydlwyd grŵp i edrych ar y ffordd yr oedd y GTI yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc a sut y gellid gwella hyn. Roedd y grŵp wedi cynllunio pecyn ymgynghori i'w ddefnyddio ar bwyntiau adolygu ac ar ddiwedd ymyriadau.

Cryfderau:

- Roedd y pecynnau ymgynghori yn sicrhau ymagwedd gyson i'w defnyddio ar bob pwynt adolygu ac ar ddiwedd ymyriadau. Cynhyrchwyd adroddiad chwe misol ynglŷn â chanfyddiadau'r ymgynghori, a'i drafod â staff yn ystod y diwrnodau datblygu 'GTI cyfan' i lywio datblygu'r gwasanaeth.
- Roedd tystiolaeth o newidiadau yn y gwasanaeth atgyweirio ar ôl ymgynghori â phlant a phobl ifanc.
- Adolygwyd yr holl orchmynion goruchwylio â'r rheolwr yng nghartref y plentyn neu'r person ifanc, ac roedd hwn yn gyfle i ymgynghori â'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu.
- Roedd gan y GCTA broses ymgynghori gynhwysfawr, rhoddwyd adborth ar ddiwedd pob ymyrraeth, ac roedd ffocws cryf ar gynnwys defnyddwyr. Gwelwyd enghraifft o hyn mewn taflen wybodaeth newydd a oedd yn cael ei datblygu, lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran ei diwyg a'i chynnwys.
- Roedd gan y GTI daflen gwynion, ac roedd y rhan fwyaf o'r 36 o blant a phobl ifanc a oedd wedi cwblhau'r holiadur Viewpoint fel rhan o'r arolygiad yn gwybod sut i wneud cwyn.
- Bu plant a phobl ifanc a gynhwyswyd mewn prosiectau atal yn eithriadol o gadarnhaol yn eu hadborth i'r GTI.
- Siaradodd nifer o blant a phobl ifanc a oedd yn ymwneud ag ymyriadau â'r tîm arolygu am y gweithgareddau y buont yn cymryd rhan ynddynt, cael mynediad at addysg a hyfforddiant, a chefnogaeth rheoli dicter. Siaradodd rhai am ennyn dealltwriaeth am y dioddefwr. Yn gyffredinol, sgoriodd y rhan fwyaf ohonynt y GTI yn uchel.

Maes i'w wella:

- Nid oedd staff y GTI na darparwyr gwasanaethau eraill yn defnyddio'r pecynnau ymgynghori yn gyson.

3.3 Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol:

- *Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael â throseddu eu plant.*

Roedd y GTI yn darparu ystod o gefnogaeth ac ymyriadau magu plant, a rhoddwyd cymorth a chyngor mwy anffurfiol i rieni/gofalwyr gan reolwyr achos yn ystod ymweliadau cartref. Cynhaliwyd asesiadau ffurfiol gan ddefnyddio'r dull asesu magu plant a ddatblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Astudio Llencyndod. Cynigiwyd cefnogaeth i rieni/gofalwyr ar lawer o ffurfiau: trwy waith un-i-un; trwy ystod o weithgareddau gwaith grŵp; penwythnosau preswyl i deuluoedd; a chefnogaeth i weithgareddau yn ystod gwyliau ysgol. Roedd rhieni/gofalwyr yn ymwneud ag ymyriadau, neu wedi bod yn ymwneud ag ymyriadau yn y gorffennol, mewn wyth o'r 30 o achosion a archwiliwyd gennym.

Cryfderau:

- Roedd y tîm cefnogi magu plant yn sensitif i anghenion unigol defnyddwyr gwasanaeth. Roeddent yn darparu trafnidiaeth a chyfleusterau crèche, ac yn sicrhau mynediad i bobl anabl yn y lleoliadau a ddefnyddiwyd ac na fyddai unrhyw un dan anfantais oherwydd diffyg sgiliau llythrennedd. Roeddent wedi defnyddio cefnogaeth datblygu cymunedol i rieni/gofalwyr a chanddynt anableddau dysgu.
- Roedd mentrau newydd yn cael eu datblygu, gan gynnwys cynadleddau grwpiau teuluol, mentoriaid magu plant, a gweithio ochr yn ochr â rhieni/gofalwyr a'u plant.
- Nid oedd gorchmynion magu plant yn cael eu defnyddio'n aml iawn (pedwar mewn chwe blynedd) ac roedd y pwyslais ar ymyrraeth wirfoddol.
- Roedd rhieni/gofalwyr yn cyfranogi yn asesiad cychwynnol y plentyn neu'r person ifanc, a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad y plentyn neu'r person ifanc trwy gydol y broses.
- Defnyddiodd y GTI ddulliau dychmygus i gynorthwyo rhieni/gofalwyr i ymdrin ag ymddygiad eu plant. Defnyddiwyd cynadleddau cyfiawnder adferol, a bu Theatr Fforwm Cymru yn ymwneud ag un teulu mawr.
- Yn gyffredinol, roedd yr adborth a gawsom gan deuluoedd am y GTI yn gadarnhaol iawn, ac roedd rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gafwyd ganddynt hefyd

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd gweithwyr achos wedi cofnodi'r holl ymyriadau magu plant bob tro.
- Ni roddwyd digon o sylw i ymgysylltu â thadau yn ystod rhaglenni magu plant.

Arfer da

Gwaith dargyfeiriol gyda Theatr Fforwm Cymru

Gofynnwyd i'r GTI gymryd rhan mewn cynllun peilot Theatr Fforwm Cymru i wella llythrennedd emosiynol plant a phobl ifanc. Roedd yn defnyddio'r prosiect mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, gyda grŵp o blant a phobl ifanc a oedd i gymryd rhan mewn prosiect Splash yn ystod hanner tymor. I gychwyn, gweithiodd y plant a'r bobl ifanc ar chwalu rhwystrau a chreu ymddiriedaeth. Wedi hynny, canolbwyntiodd gweddill y dydd ar sefyllfaoedd bob dydd i ddangos sut mae pobl yn ymateb a chanlyniadau'r ymatebion hynny.

Yn ail, gweithiodd gyda grŵp teuluol mawr, lle'r oedd aelodau'r teulu yn ei chael yn anodd iawn mynegi eu hunain yn y sefyllfa deuluol. Roedd strwythur y dydd yn caniatáu i aelodau'r teulu siarad a chael eu clywed fel unigolion. Roedd hyn yn gwella sgiliau cyfathrebu'r teulu ac yn eu helpu i ddeall anghenion ei gilydd.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH Â PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Bernir bod yr adran hon yn dda.

4. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GCHau

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCH yn troseddu eto ei leihau trwy ymyriad y GTI trwy asesiad.*

Bu'r GTI yn ymwneud â phrosiect Rheoli'r Galw am Gystodaeth y BCI. Roedd yr adroddiad lleol yn dangos ychydig o arfer da, ond roedd y GTI yn ei chael yn anodd o hyd fodloni dangosydd perfformiad allweddol y BCI ar gyfer defnyddio dedfrydau gwarchodol. Roedd gwaith diweddar yn dangos bod nifer gwirioneddol y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael dedfrydau gwarchodol wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, am fod y dangosydd perfformiad allweddol yn cael ei fesur fel canran o boblogaeth y llys a bod honno wedi gostwng mwy, roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw gynnydd wedi cael ei wneud.

Cryfderau:

- Roedd swyddogion y llys yn gweld plant a phobl ifanc a'u teuluoedd (lle'n briodol), ar unwaith ar ôl iddynt gael eu dedfrydu ac yn cynnal asesiad risg o dan y cynllun asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm. Rhoddwyd gwybod i'r sefydliad diogel am unrhyw risg, ac fe'i ffoniwyd pe credid bod y plentyn neu'r person ifanc yn arbennig o ddiamddiffyn. Trosglwyddwyd yr holl wybodaeth berthnasol yn gyflym.
- Cynigiwyd ymweliad dilynol cynnar i deuluoedd er mwyn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth iddynt.
- Roedd gan y GTI swyddog GCH amser llawn pwrpasol, a oedd yn ymweld â phob sefydliad yn rheolaidd ac a oedd yn gallu monitro unrhyw anghenion penodol a oedd gan blant a phobl ifanc.
- Mynychodd staff y GTI y cyfarfod cyntaf yn y sefydliad diogel a chyfrannu at y cynllun hyfforddi cychwynnol. Roeddent yn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan Asset ac yn ymdrin ag anghenion penodol y plentyn neu'r person ifanc.

Arfer da

Swyddog GCH pwrpasol

Bu'r gweithiwr hwn yn y swydd er 2003 ac roedd wedi trafod cyfanswm allweddol â STIEM Ashfield. Roedd hyn yn caniatáu i'r GTI gael mynediad cyflym a pharod at blant a phobl ifanc a oedd yn destun dedfrydau gwarchodol. Roedd y gweithiwr wedi cwblhau sawl agwedd ar hyfforddiant Gwasanaeth Carchardai EM ac yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â staff STIEM Ashfield ar ofynion ar y cyd y GTI/y gwasanaeth carchardai.

Roedd y swyddog GCH mewn sefyllfa dda i gefnogi ymgysylltu effeithiol gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc a oedd yn destun dedfrydau gwarchodol. Roedd y swydd hon yn sicrhau bod gan y GTI a STIEM Ashfield drefniadau cyfathrebu i danategu ymyriadau effeithiol â phlant a phobl ifanc.

Roedd gan y GTI gynllun i gysgodi staff GTI Rhondda Cynon Taf gan ddefnyddio rheolwyr achosion STI, a hynny i gadarnhau ymhellach y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad ac i gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth staff y STI o ystyriaethau cymunedol.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd diffyg llety addas i blant a phobl ifanc a oedd yn cael eu rhyddhau o sefydliadau diogel, yn arbennig os oeddent wedi eu tagio.
- Er bod yr ymweliadau a gofnodwyd yn bodloni'r safon genedlaethol, nid oedd tystiolaeth o'r holl gysylltu â phlant a phobl ifanc wedi'u cofnodi ar SWTI.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau yn ailroseddu ei leihau trwy ymyriad y GTI trwy gyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad gwarchodol yn ystod y cyfnod gwarchodol.*

Roedd gan y GTI berthynas ragorol â'r ddau brif STI yr oedd yn cydweithio â nhw, yn ogystal â'r sefydliad hyfforddi cadarn lleol. Roedd hefyd wedi gweithio'n galed i adeiladu cysylltiadau â sefydliadau eraill. Roedd hyn yn sicrhau bod y GTI, yn gyffredinol, yn gallu cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol a oedd yn berthnasol i blant a phobl ifanc a oedd wedi cael dedfrydau gwarchodol, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi ac yn cael gwasanaeth cyson.

Cryfderau:

- Roedd gan y GTI swyddog GCH pwrpasol a oedd, ar ôl ei hyfforddi, wedi cael ei set ei hun o allweddi ar gyfer yr STI a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer plant a phobl ifanc o Rondda Cynon Taf. Roedd hyn yn

caniatáu i'r swyddog gael mynediad i'r sefydliad ar unrhyw adeg a chael mynediad yn ddidrafferth at y plant a'r bobl ifanc roedd yn gweithio gyda nhw. Trwy'r cysylltu hyn â'r sefydliadau, roedd y swyddog GCH wedi sicrhau bod gan y GTI hyblygrwydd o ran cynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ar fyr rybudd â'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn y ddalfa. Cynigiwyd cyswllt cyson i blant a phobl ifanc â staff y GTI, ac roedd hyn yn gymorth i ddatblygu perthynas waith gynhyrchiol â staff y STI, y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd.

- Yn yr holl achosion a arolygwyd gennym, roedd y swyddog GCH a'r rheolwr achosion yn ymweld â'r plentyn neu'r person ifanc yn wythnosol, yn unol â'r safon genedlaethol. Roedd tystiolaeth o gyfranogi gweithredol wrth gynllunio ac adolygu dedfrydau, ac roedd y swyddog GCH a'r rheolwr achosion yn cydweithio yn hyn o beth. Cymerwyd gofal arbennig i fonitro anghenion plant a phobl ifanc a leolwyd mewn sefydliadau yn Lloegr.
- Lle bo'n briodol, atgyfeiriwyd plant a phobl ifanc at DAÔ, CHA, RhGDd ac iechyd, ac roedd gan staff addysg ac iechyd y GTI gysylltiadau da â'u cyfoedion mewn sefydliadau diogel.
- Roedd y rheolwr achosion, y swyddog GCH ac, yn aml, staff perthnasol eraill fel gweithwyr iechyd ac addysg, yn mynychu adolygiadau. Anogwyd a chefnogwyd rhieni/gofalwyr i fynychu hefyd. Roedd gan y swyddog GCH ffocws penodol ar gefnogi rhieni/gofalwyr a hwyluso eu cyswllt â'u plant a phobl ifanc a oedd yn y ddalfa.
- Roedd y swyddog GCH yn cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau ymyrryd priodol tra roedd y plentyn neu'r person ifanc yn y ddalfa, ac yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu dilyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Roedd y swyddog GCH yn cynnig gwaith atgyweirio i blant a phobl ifanc pan oeddent yn y ddalfa.

Maes i'w wella:

- Nid oedd yr holl gysylltu â phlant a phobl ifanc yn cael ei gofnodi ar SWTI.

Dyfarniad allweddol:

- *Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau yn aildroseddu ei leihau trwy ymyriad y GTI trwy ailintegreiddio i'r gymuned.*

Cafwyd cyswllt rheolaidd â staff sefydliadau diogel. Roedd hyn yn sicrhau cynnal trafodaethau rheolaidd am gynnydd y plentyn neu'r person ifanc, a bod ansawdd a graddau'r gwaith cyn rhyddhau yn briodol i asesu angen y plentyn neu'r person ifanc.

Cryfderau:

- Ar y cyd â'r plentyn neu'r person ifanc, roedd y swyddog GCH yn adolygu'n fanwl ofynion ei drwydded. Roedd y swyddog yn helpu i sicrhau bod yr ymyriadau yn y ddalfa yn adlewyrchu'r cynlluniau ar gyfer rhyddhau'r plentyn neu'r person ifanc.
- Roedd tystiolaeth yn yr holl achosion a arolygwyd bod y gwaith a gychwynnwyd yn y ddalfa o ran ymddygiad troseddol, CHA, iechyd, camddefnyddio sylweddau ac ystyriaethau eraill, yn parhau ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei ryddhau.
- Roedd y rheolwr achosion, y swyddog GCH a staff arbenigol eraill yn mynychu'r adolygiad terfynol. Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i fynychu.
- Rhoddwyd llety priodol i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc a oedd yn gadael y ddalfa.
- Gwnaed defnydd da o'r fforwm cynllunio achosion pan oedd pryderon y byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn achosi risg penodol iddo ef ei hun neu eraill, a sefydlwyd cysylltiadau priodol â CARA neu MAPPA lle'r oedd hynny'n briodol.
- Roedd tîm o weithwyr ieuenctid annibynnol yn ymweld â phlant a phobl ifanc yn STIEM Parc a STIEM Ashfield, ac yn gweithio i godi hunanhyder, a byddai gwaith dilynol yn cael ei wneud pan fyddai'r plant a'r bobl ifanc yn dychwelyd i'r gymuned.
- Roedd cysylltu a chyfnewid gwybodaeth gwell rhwng gweithwyr addysg y GTI a STIEM Ashfield.
- Roedd aelodau o dîm cefnogaeth ymddygiad yr AALl yn ymweld â sefydliadau diogel ar y cyd â gweithwyr addysg y GTI. Sefydlwyd anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran CHA cyn ei ryddhau, a darparwyd CHA iddo, ar ôl ei drosglwyddo i'r gymuned, yn unol â'r safonau cenedlaethol.
- Roedd y DAÔ yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a chanddynt anghenion o ran camddefnyddio sylweddau a llety, yn ystod y rhan o'u dedfryd yn y ddalfa, ac roedd yn gallu parhau â'r gwaith hwn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.
- Yn aml, mynychai aelodau allweddol o'r sefydliad gwarchodol yr adolygiad cymunedol cyntaf.
- Roedd lefel y cyswllt gan y gweithiwr GTI ac ymweliadau cartref â'r plentyn neu'r person ifanc ar ôl iddo gael ei ryddhau yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd cynghorydd Gyrfa Cymru a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn STIEM Parc, ond nid oedd unrhyw fewnbwn Gyrfa Cymru i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn Lloegr, fel STIEM Ashfield neu STIEM Stoke Heath. Nid oedd modd i blant a phobl ifanc yn y sefydliadau hyn gael mynediad at Yrfa Cymru na GGGC ar-lein o ganlyniad i ystyriaethau diogelwch.

- O'r achosion a archwiliwyd gennym ni ar ddiwedd y ddedfryd, hanner y plant a'r bobl ifanc yn unig a ailaseswyd am sgiliau llythrennedd a rhifedd gan ddefnyddio dull asesu cymeradwy'r BCI.
- Nid oedd cynrychiolwyr tai yn mynychu'r cyfarfod adolygu terfynol, ac roedd gormod o ddibyniaeth ar lety gwely a brecwast.
- Roedd y lleoedd gwag CAMHS yn y GTI yn effeithio'n negyddol ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc pan oeddent yn cael eu rhyddhau o sefydliadau diogel.

Dyfarniad allweddol:

- *Mae'r GTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau.*

Mewn ychydig o dan hanner yr achosion a archwiliwyd gennym, roedd tystiolaeth o weithgaredd troseddol ar drwydded, ac roedd yr un canran yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Roedd ychydig dros hanner yn dangos gwelliant ar y sgoriau Asset cychwynnol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth arall a oedd yn dangos canlyniad mwy cadarnhaol.

Cryfderau:

- Roedd tystiolaeth bod rhai plant a phobl ifanc wedi ennill cymwysterau addysgiadol a galwedigaethol yn ystod eu cyfnod mewn sefydliadau diogel. Roedd eraill wedi ennill cyflogaeth ar ôl cael eu rhyddhau.
- Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn rhoi sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt oddi wrth y GTI.

Maes i'w wella:

- Nid oedd y GTI wedi rhoi digon o sylw i waith ychwanegol ar sgoriau Asset ar bob cam o'r broses i werthuso effaith y gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc. Yn yr achosion a archwiliwyd, ffactorau troseddogenig tebyg oedd yn dangos y nifer lleiaf o welliannau.

Arfer da

Sylw gan berson ifanc:

"Byddwn i'n farw erbyn hyn petawn i heb gael GCH a help oddi wrth y GTI. Gwnaethant fy helpu i weld beth oeddwn i'n ei wneud i fi fy hun. Maent yn fy helpu i gael llety a lle yn y coleg. Rwyf am fynd i'r brifysgol a dod yn weithiwr cymdeithasol. Y peth arall rwy'i wedi'i ddysgu yw na fyddant yn rhoi'r ffidil yn y to arna' i. Hyd yn oed pan nad oeddwn i'n cadw at fy rhaglen fe roddon nhw ail gyfle i mi."

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH Â PHLANT A PHOBL SY'N DESTUN GCHau

Bernir bod yr adran hon yn dda.

5. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Dyfarniad allweddol:

- *Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo'u bod wedi cael eu cynorthwyo gan ymyriad y GTI ddod ag achos i derfyn.*

O sefyllfa wan a nodwyd gan adolygiad allanol yn 2005, gwnaed cynnydd sylweddol ym maes gweithio gyda dioddefwyr. Ni fu unrhyw gyllid ar gael yn benodol ar gyfer dioddefwyr, a throswyd swydd gweithiwr cymdeithasol wag yn 1.5 o weithwyr dioddefwyr wedi'u lleoli yn nhîm deheuol y GTI, ond a oedd yn gweithio ledled yr ardal. Gwnaed penderfyniad strategol i gynnal gwaith o ansawdd da ar lefel dioddefwyr unigol, yn hytrach na gwasanaeth lefel isel eang.

Cryfderau:

- Cysylltwyd â throseddwyr mewn bron i dri chwarter yr achosion a archwiliwyd gennym ni. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd gwaith a wnaed gyda nhw yn rhoi sylw i'w hystyriaethau amrywiaeth ac ystyriaethau amrywiaeth y plentyn neu'r person ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r drosedd. Gwnaed gwaith gyda'r plentyn neu'r person ifanc i gynyddu ei ymwybyddiaeth o effaith y drosedd ar y dioddefwr mewn 87% o achosion.
- Roedd dogfen bolisi a gweithdrefn dioddefwyr (a gwblhawyd yn ddiweddar) yn cynnig arweiniad i staff o ran cysylltu â dioddefwyr; yn amlinellu ffiniau rhannu gwybodaeth; ac roedd yn seiliedig ar arweiniad cenedlaethol.
- Roedd y cydlynydd dioddefwyr yn cydweithio'n agos â'r tîm gorchmynion atgyfeirio. Roedd yn mynychu cyfarfodydd y panel troseddwyr ieuenctid yn rheolaidd, ac yn cynorthwyo â hyfforddi gwirfoddolwyr. Cysylltwyd â phob dioddefwr gorchymyn atgyfeirio, ond ni fanteisiodd pob un ohonynt ar y cynnig i gymryd rhan yn y paneli. Y bwriad oedd y byddai'r cydlynydd yn cymryd arni y gwaith a wnaed gan heddweision y GTI o ran rhybuddion terfynol.
- Er mai dim ond heddweision y GTI oedd â mynediad at system rheoli cofnodion Niche i gael gwybodaeth fanwl am ddioddefwyr, roedd protocol rhannu gwybodaeth ar waith. Y bwriad oedd y byddai'r gweithwyr dioddefwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio system Niche i ganiatáu cael mynediad uniongyrchol at wybodaeth am ddioddefwyr.
- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r dioddefwr am gynnydd yr achos, a rhoddwyd cyfle iddo/iddi gysylltu ag asiantaethau arbenigol fel Cymorth i Ddioddefwyr.

- Roedd cysylltiadau da â Chymorth i Ddioddefwyr a Chynllun Iawndal Dioddefwyr Troseddau sy'n Blant, ac â sefydliadau eraill fel Cymorth i Fenywod, Cymdeithas Atal Troseddau Cwm Cynon a Chymorth i Dystion.
- Roedd y cydlynydd dioddefwyr yn gweithio gyda'r swyddog amrywiaeth i ymdrin ag anghenion dioddefwyr o grwpiau du ac ethnig lleiafrifol.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o bob dioddefwr ynglŷn â'r gwasanaeth a gawsant, ac roedd hyn yn cyfrannu at adroddiad chwarterol a baratowyd i reolwyr. Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol gan ddioddefwyr.
- Roedd holl staff y GTI wedi'u hyfforddi o ran ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac egwyddorion cyfiawnder adferol, ac roedd yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio mewn ystod o ffyrdd dychmygus.
- Estynnwyd y prosiect cyfiawnder adferol mewn ysgolion i gynnwys unedau preswyl gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod, ac roedd staff yr unedau hyn wedi cael hyfforddiant ym maes cyfiawnder adferol.
- Roedd gan y GTI ystod o brosiectau cyfiawnder adferol a gwneud iawn, gan gynnwys y prosiect gwella a gyflwynwyd ar draws yr ardal. Roedd ystod o ymyriadau a oedd yn cynnwys gweithio ar ran o lwybr coetirol a agorwyd ac a sefydlogwyd; clwb chwaraeon y rhoddwyd cot newydd o baent iddo yn dilyn achos o fandaliaeth; canolfan gymunedol a ailaddurnwyd; a chanolfan galw heibio lle rhoddwyd plant a phobl ifanc unigol i gyflawni rolau yn y gegin a rolau arlwyo. Roedd y gwaith a welwyd gennym o ansawdd da, ac roedd yn ymddangos yn briodol ar gyfer lleoliadau unigol a lleoliadau grŵp.

Arfer da

Gwneud iawn uniongyrchol

Roedd dau ddyn ifanc wedi'u cael yn euog o losgi bwriadol ar safle adeiladu. Mynychodd rheolwr y safle y panel troseddau ieuenctid a disgrifio effaith y drosedd, a oedd wedi difrodi eiddo'r cwmni a dau dŷ preifat, ac wedi oedi'r prosiect adeiladu. Cytunwyd ar gamau gwneud iawn a phan gwblhaodd y ddau ddyn ifanc y gwaith a'u gorchmynion yn llwyddiannus, cynigiodd y cwmni daith tywysedig iddynt o amgylch y safle mewn cerbyd adeiladu.

Meysydd i'w gwella:

- Mewn 67% yn unig o'r achosion a archwiliwyd gennym yr oedd prosesau addas ar waith mewn ACDau a CGCau o ran dioddefwyr ac atgyweirio.
- Roedd gan y GTI broblemau gallu i'w datrys o ran gweithio gyda throseddwyr.

- Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith gwneud iawn wedi'i seilio yn y gymuned, ac er bod gwelliant ers penodi'r cydlynydd dioddefwyr, roedd angen gwneud mwy o waith i ymestyn gwaith gwneud iawn uniongyrchol.

Arfer da

Cyfiawnder adferol mewn ysgolion

Cyllidwyd y prosiect hwn, a gyllidwyd yn wreiddiol gan y BCI, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r PDC er mwyn parhau i'w ymestyn i ysgolion uwchradd ledled yr awdurdod. Rhoddodd y prosiect arloesol hwn gefnogaeth wych i ysgolion o ran rheoli ymddygiad, yn arbennig o ran annog disgyblion i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'r niwed a wnaed, ac i unioni perthnasoedd a'r difrod a wnaed.

Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth werthfawr a gawsant gan weithwyr y GTI i'w helpu i reoli anghydfodau ac ymddygiad plant a phobl ifanc. Arweiniodd gweithwyr y GTI sesiynau un-i-un a sesiynau grŵp gyda phlant a phobl ifanc, a'u helpu i ddatrys ystyriaethau a dysgu i gyd-fynd yn haws ag eraill. Roedd gweithwyr y GTI yn gwneud cyfraniadau effeithiol at raglenni IPAG yr ysgolion hefyd. Roedd ffurflen atgyfeirio gynhwysfawr i blant a phobl ifanc, ac roedd gweithwyr y GTI yn cymryd gofal i werthuso holl agweddau'r gwaith hwn.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWAITH GYDA DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Bernir bod yr adran hon yn dda.

Arolygu TTIau ar y Cyd

Mae'r arolygiad ar y cyd o TTIau yn rhaglen annibynnol, a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cynhelir arolygiadau ar y cyd, gan gynnwys CAGC, Estyn, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ACEM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, Ofsted ac AGCC fel y bo'n briodol. Mae'r tîm arolygu ar y cyd wedi'i leoli yn Arolygiaeth Prawf EM, ac fe'i harweinir ganddi.

Amcanion y Swyddfa Gartref

Mae'r arolygiad ar y cyd yn cyfrannu'n bennaf at gyflawni Amcan II y Swyddfa Gartref – 'caiff mwy o droseddwyr eu dal, eu cosbi a rhoi'r gorau i droseddu a chaiff dioddefwyr eu cefnogi'n well', ac at y gofyniad i sicrhau bod dedfrydau carchar a chymunedol yn fwy effeithiol wrth atal troseddu.

Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni Amcan III, drwy graffu ar waith i fynd i'r afael â cham-ddefnyddio cyffuriau a sylweddau eraill, ac i amcanion perthnasol eraill y system cyfiawnder troseddol a Gwasanaethau Plant yn Lloegr a'r amcanion Ymestyn Hawliau yng Nghymru.

Diben yr arolygiad ar y cyd yw adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol, a thrwyddo ef, i'r Senedd ac i'r cyhoedd, ar effeithiolrwydd y TTIau wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol i atal troseddu gan blant a phobl ifanc, a thrwy hynny i ddiogelu'r cyhoedd, gan ddiogelu eu hawliau a hyrwyddo'u lles ar yr un pryd.

Nodau'r rhaglen yw:

- asesu effaith y TTIau a mudiadau partner ar atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy oruchwylio effeithiol
- arfarnu'r gwaith y mae TTIau a mudiadau partner yn ymgymryd ag ef i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a'u galluogi i fyw bywydau deddfgadwol ac adeiladol
- gwerthuso rôl y TTIau wrth ddiogelu hawliau a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- asesu i ba raddau y mae TTIau yn bodloni'r safonau a'r targedau gofynnol a osodir gan y BCI
- hyrwyddo arfer da yn nhrefniadau rheoli TTIau ac wrth gyflwyno gwasanaethau i'r llysoedd ac i'r gymuned
- nodi tanberfformio a gwneud argymhellion i hyrwyddo gwelliannau
- gwerthuso'r defnydd effeithiol ar adnoddau
- mynd rhagddi i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn rhan gynhenid o'r broses arolygu
- llunio adroddiadau amserol sy'n cyfrannu at welliant mewn perfformiad drwy lywio polisi ac arfer.

Trefniadau arolygu

- Cynhelir yr adroddiad TTI ar y cyd yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygu cymesur a chydlynol mewn llywodraeth leol. Mae'n:
  - gymesur â risg, gyda gwaith maes yn cael ei addasu yn ôl amgylchiadau'r TTI ac fe'i cyflawnir i nodi canfyddiadau neu i ledaenu arfer da yn unig
  - ategu, ac yn cael ei gydlynu gyda rhaglenni arolygu eraill, gan gynnwys yr AACau yn Lloegr, a'r arolygiadau yr ymgymerir â hwy fel rhan o'r RhCG ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru
  - llywio barnau a wneir yn yr APB a'r APC yn Lloegr.
- Canolbwyntia'r meini prawf ar gyfer trydydd cam yr arolygiad ar:
  - reoli
  - gwaith yn y llysoedd
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
  - gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau
  - dioddefwyr a chyfiawnder adferol.
- Cyn yr arolygiad, gofynnir i bob TTI gyflwyno gwybodaeth ddethol ymlaen llaw a llunio hunanasesiad, sy'n nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.
- Yn Lloegr, cyflawnir y gwaith maes ar gyfer pob arolygiad unigol dros un wythnos, cyn yr AAC. Mae'n cynnwys:
  - asesiad o sampl cynrychioliadol o ffeiliau achos unigol
  - cyfarfodydd â rheolwyr perthnasol, cynrychiolwyr mudiadau partner ac aelodau staff TTI
  - cyswllt â phlant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a dioddefwyr y troseddau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc, o dan oruchwyliaeth y TTI.
- Mae gwaith maes yng Nghymru'n cynnwys yr un elfennau ond fe'i cysylltir ag arolygiadau yr ymgymerir â hwy fel rhan o'r RhCG ac o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid. Gellir cynnal yr asesiad o ffeiliau achos, felly, cyn y cyfarfodydd â rheolwyr a staff. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser arolygu a dreulir yn y TTI o'r un hyd ag yn Lloegr.
- Mae'r asesiad o ffeiliau achos yn cynnwys sampl cynrychioliadol o rhwng 30 ac 80 o blant a phobl ifanc (yn ddibynnol ar faich gwaith y TTI) sydd wedi bod yn destun rhyw fath o ymyrraeth dros y misoedd blaenorol. Mae'r achosion yn cwmpasu'r rhan fwyaf o orchmynion, gan gynnwys trwyddedau, ac edrychir arnynt yn fanwl. Mae'r rheolwr achos ac unrhyw berson arall sy'n chwarae rhan arwyddocaol wrth gyflwyno'r ymyrraeth yn cael eu cyfweld fel rhan o'r ymarfer darllen ffeil a, lle bynnag y bo modd, y plentyn neu'r person ifanc ei hun a'i rieni/ofalwyr.

- I annog hunanasesu a gwella perchnogaeth ar ganfyddiadau'r arolygiad, rydym yn gwahodd TTIau i secondio aelod o'u staff, sy'n ymarferwr profiadol fel arfer, i fod yn gynrychiolydd sy'n dilyn y tîm arolygu, am wythnos y gwaith maes. Ystyriwn fod hyn yn fodd cadarnhaol o ddatblygu dealltwriaeth gilyddol a chryfhau'r cysylltiadau rhwng arolygu ac arfer.
- Bydd canfyddiadau'r arolygiad yn cael eu llunio mewn adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Caiff yr argymhellion hyn eu cynllunio i annog y TTI yn ei waith, i gefnogi arfer da ac i hyrwyddo gwelliannau.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref, fel yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, gyda chopïau i'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd ar yr un pryd. Yng Nghymru, cyflwynir adroddiadau hefyd i'r Gweinidogion dros Ofal Cymdeithasol ac Adfywio, Dysgu Gydol Oes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag i'r Gweinidog dros Blant.
- Cyhoeddir adroddiadau ar TTIau yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd yn anelu at gyflawni'n cyfrifoldebau eraill o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn unol â'r egwyddor cydraddoldeb craidd sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf.
- Anfonir copi at y BCI. Mae copïau hefyd ar gael i'r wasg ac fe'u gosodir ar wefan Gwasanaeth Prawf EM yn:

  http://www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation

Cod ymarfer

Bydd pob arolygiad:

- yn cael ei gynnal gyda gonestrwydd mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais
- yn galluogi i farnau annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth, gael eu llunio
- yn ceisio symbylu staff ac ymgysylltu â hwy
- yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth drwy gydol ei brosesau
- yn dod i derfyn drwy gyhoeddi adroddiad yn amserol sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau am arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall a ddaw o dan gylch gwaith y rhaglen arolygu hon ysgrifennu at:

Brif Arolygydd Prawf EM
2nd Floor, Ashley House

2 Monck Street
London SW1P 2BQ

Dull sgorio

Mae'r dull sgorio wedi cael ei newid yn sylweddol yng ngham tri o'r rhaglen arolygu er mwyn sicrhau cysondeb â dull yr AAC a'r Asesiad Corfforaethol yn Lloegr, a'r barnau tebyg a ddefnyddir mewn arolygiadau yr ymgymerir â hwy fel rhan o'r RhCG ac o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Yng ngham tri, mae pob un o bum adran yr arolygiad yn cael ei hasesu'n unigol yn ôl y meini prawf perthnasol. Seilir asesiadau ar:

- wybodaeth a ddarperir gan y TTI
- cyfweliadau â phrif swyddogion, rheolwyr, a staff o'r TTI a mudiadau partner eraill fel ei gilydd
- archwilio ffeiliau achos
- trafodaethau â rheolwyr achos a phobl eraill sy'n chwarae rhan amlwg yn y broses oruchwylio
- amgyffrediadau'r plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle bynnag y bo modd, eu dioddefwyr, y cysylltir â hwy yn ystod yr arolygiad
- gwybodaeth a ddarperir gan yr AAC, yr Asesiad Corfforaethol a chanfyddiadau arolygu perthnasol eraill yn Lloegr ac arolygiadau sy'n rhan o'r RhCG ac o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru.

Rhoddir y barnau a'u disgrifwyr yn y tabl isod:

Barn	Disgrifiwr
4	Rhagorol – yn perfformio'n gadarn, ymhell uwchlaw gofynion safonol gyda nodweddion rhagorol
3	Da - perfformio'n dda, yn gyson uwchlaw gofynion safonol heb unrhyw ddiffygion pwysig
2	Digonol – yn cyrraedd safonau gofynnol yn unig
1	Annigonol – nid yw'n cyflawni safonau gofynnol, a chanddo llawer o ddiffygion pwysig

Crynhown farnau'r pum adran mewn asesiad cyffredinol. Rydym wedi penderfynu na fyddwn, yng ngham tri, yn rhoi categoreiddiad cyffredinol o berfformiad yn ei gyfanrwydd, gan y dymunwn fod pob TTI yn canolbwyntio'i sylw ar ei feysydd penodol ei hun ar gyfer gwella.

Y camau nesaf

- Gofynnir i'r TTI anfon ymateb i'r argymhellion, at y prif arolygydd, ynghyd â chynllun gweithredu o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad. Rhagwelir y bydd yr argymhellion yn cael eu trafod fel rheol o fewn 12 mis o gyhoeddi i ganiatáu digon o amser i integreiddio i ddatblygiadau sydd eisoes yn bodoli.
- Pan fydd y prif arolygydd wedi cytuno ar y cynllun gweithredu, fe'i trosglwyddir i'r BCI a fydd yn monitro rhoi'r argymhellion ar waith.
- Nid yw'r rhaglen arolygu ar y cyd fel arfer yn cynnwys unrhyw gamau dilynol oni bai bod materion yn dod i'r amlwg yn ystod y rhaglen a oedd yn peri cymaint o bryder fel bod angen sylw arnynt ar unwaith. Ni chododd arolygiad TTI Rhondda Cynon Taf unrhyw bryderon o'r fath.
- Yn ogystal ag adroddiadau ar TTIau unigol, mae'r tîm arolygu ar y cyd hefyd yn cyhoeddi adroddiadau o dro i dro ar ganfyddiadau ar draws nifer o dimau. Mae adroddiadau o'r fath yn cynnwys sylwadau ar faterion cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ac unrhyw wybodaeth arall am dueddiadau. Maent hefyd yn cynnwys cymariaethau rhwng perfformiad TTIau sydd â nodweddion tebyg.

Meini prawf arolygu ar gyfer TTIau yn Lloegr

1. Rheoli

1.1: Arweinyddiaeth

Dyfarniad allweddol

1.1.1: Mae'r Bwrdd Rheoli yn darparu arolygiaeth a chyfeiriad strategol, ac yn cydlynu darpariaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y TTI a sefydliadau partner.

Tystiolaeth

1.1.1.1 Mae yna linell atebolrwydd glir ar gyfer y TTI i Brif Weithredwr yr awdurdod lleol, a chaiff cynlluniau TTI eu hintegreiddio â chynlluniau'r cyngor ehangach.

1.1.1.2 Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfarfodydd.

1.1.1.3 Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cynrychioli anghenion y TTI i'w sefydliadau rhiant.

1.1.1.4 Mae'r Bwrdd Rheoli yn rhoi cymorth ac arweiniad i Reolwr y TTI i sicrhau eu bod yn ymgysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach.

1.1.1.5 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau bod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei weithredu.

1.1.1.6 Mae'r Bwrdd Rheoli yn sicrhau darpariaeth dychweliadau data cywir ac amserol, at ei ddefnydd ei hun ac at ddefnydd y BCI.

1.1.1.7 Mae partneriaid yn adolygu, yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth am y gwasanaeth ar y cyd yn rheolaidd i sicrhau bod y TTI yn cyfrannu at wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Dyfarniad allweddol

1.2.1: Mae sefydliadau partner a'r TTI yn gweithio gyda'i gilydd i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Tystiolaeth

1.2.1.1 Mae'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu strategaethau partner.

1.2.1.2 Nodwyd adnoddau a cheir gallu i fodloni angen a aseswyd.

1.2.1.3 Mae TTIau wedi'u staffio'n briodol gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

1.2.1.4 Cytunwyd ar brotocolau, contractau a CLGau rhwng y TTI, ei bartneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill i fynd i'r afael â chydlynu gwaith, cyflwyno gwasanaethau, rhannu gwybodaeth, adnoddau dynol a threfniadau cyllid. Cânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

1.2.1.5 Mae'r TTI yn aelod o'r PAAP/Bwrdd Diogelu Plant Lleol, ac yn gweithredu yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant lleol.

1.2.1.6 Mae'r TTI yn cyfrannu at ymagwedd asiantaeth ar y cyd i reoli troseddwyr risg uchel yn y gymuned, gan gynnwys MAPPA a chofrestru â'r heddlu.

1.2.1.7 Mae yna drefniadau cadarn ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl, gan gynnwys y rheiny sy'n symud ar draws ffiniau gwasanaeth.

1.2.1.8 Darperir ystod o ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg, ar draws yr awdurdod i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu.

1.2.1.9 Mae'r TTI yn cyfrannu at fentrau adfywio cymunedol sydd wedi'u targedu at y meysydd mwyaf anghenus ac mae'n mynd i'r afael â'r ystod eang o anghenion teulu mewn ffordd integredig.

1.2.1.10 Mae'r TTI yn cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig trwy weithio partneriaeth effeithiol.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Dyfarniad allweddol

1.3.1: Caiff canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.

Tystiolaeth

1.3.1.1 Diffinnir arfer gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig.

1.3.1.2 Caiff staff eu goruchwylio'n rheolaidd o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u hanghenion datblygiadol a lefel asesedig eu gallu.

1.3.1.3 Mae gwerthusiadau blynyddol yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â thargedau lleol a chenedlaethol.

1.3.1.4 Mae gan yr holl staff gymwysterau priodol, a chânt gyfleoedd hyfforddi i'w paratoi i fodloni gofynion y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid i nodi a rheoli risgiau ac i godi pryderon ynghylch diogelu.

1.3.1.5 Caiff anghenion hyfforddi eu hadolygu'n rheolaidd.

1.3.1.6 Mae gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ac maent ar gael ar gyfer gweithgareddau TTI.

1.3.1.7 Cynhelir gwiriadau'r SCT ar yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd â mynediad at blant a phobl ifanc neu eu ffeiliau achos, a chânt eu diweddaru o leiaf bob tair blynedd.

1.3.1.8 Mae cytundebau ar y cyd ar waith ar gyfer rheoli gweithdrefnau disgyblaethol, gallu a chwyno.

1.3.1.9 Mae yna weithdrefn gwynion ysgrifenedig, sy'n cael cyhoeddusrwydd da ac ar gael yn hawdd. Caiff cwynion eu rheoli'n briodol yn unol â'r weithdrefn.

1.3.1.10 Cynhelir asesiadau iechyd a diogelwch o gyfleusterau a gweithgareddau, gweithredir arnynt a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.

2. Gwaith yn y llysoedd

Dyfarniad allweddol

2.1: Ceir perthynas waith dda rhwng y TTI a'r llys lleol.

Tystiolaeth

2.1.1 Mae cytundeb ar waith rhwng y TTI, clerc yr ynadon neu ei (h)uwch gyfreithiwr enwebedig ac mae'r Llys y Goron lleol yn ymdrin â threfniadau ar gyfer gwasanaethau llys.

2.1.2 Mae'r TTI yn darparu staff hyfforddedig a gwybodus i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol mewn unrhyw lysoedd yn ei ardal ddaearyddol, gan gynnwys cyflenwi ar ddydd Sadwrn/gŵyl banc a Llysoedd y Goron.

2.1.3 Mae'r TTI yn mynychu ac yn cyfrannu at Grŵp Defnyddwyr Llys Ieuenctid, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac y ceir manylion am ei ddiben yn y safon genedlaethol.

2.1.4 Mae'r TTI yn darparu cyfraniadau rheolaidd i staff llys ynadon a Llys y Goron am ystod o raglenni a dewisiadau dedfrydu.

Dyfarniad allweddol

2.2: Caiff arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI o fewn y llysoedd.

Tystiolaeth

2.2.1 Rhoddir gwybodaeth ac apwyntiadau cyntaf i'r holl blant a phobl ifanc a wneir yn destun dedfrydau cymunedol neu raglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.

2.2.2 Caiff yr holl blant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio neu eu dedfrydu i garchariad diogel neu warchodol, eu cyfweld, eu hasesu o ran gwendid, a rhoddir y wybodaeth i'r sefydliad o fewn amserlen y safon genedlaethol.

Dyfarniad allweddol

2.3: Caiff plant a phobl ifanc eu diogelu a chaiff y tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto ei leihau trwy ddarparu gwasanaethau priodol, gan gynnwys rhaglenni goruchwylio a chefnogi mechnïaeth.

Tystiolaeth

2.3.1 Mae trefniadau ar waith rhwng y TTI a'r Adran Gwasanaethau Plant lleol o ran Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (1984), remandiau o lysoedd dydd Sadwrn/gŵyl banc a chwblhau'r gwaith papur priodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio i ofal yr awdurdod lleol.

2.3.2 Mae yna drefniadau ar waith, y mae'r TTI wedi cytuno iddynt, i nodi a rhybuddio'r TTI ynghylch yr holl blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael remand diogel neu warchodol.

2.3.3 Cynigir gwasanaethau cefnogi/goruchwylio gwahaniaethol, sy'n gymesur â'r tebygolrwydd o remand, i fynd i'r afael â gwrthwynebiad i fechnïaeth.

2.3.4 Darperir gwasanaethau dilynol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio'n ddiogel i sicrhau bod mwy o geisiadau mechnïaeth yn cael eu gwneud lle y bo'n briodol, a bod pecynnau cefnogi cymesurol i fynd gyda nhw.

Dyfarniad allweddol

2.4: Cynorthwyir llysoedd i wneud penderfyniadau cytbwys trwy ddarparu adroddiadau o ansawdd da gan y TTI.

Tystiolaeth

2.4.1 Caiff ACDau eu llunio yn unol â'r safonau cenedlaethol perthnasol, o ansawdd da, yn brydlon ac yn y fformat a gytunwyd.

2.4.2 Mae ACDau yn ddiduedd, nid ydynt yn cynnwys iaith wahaniaethol nac ystrydebau.

2.4.3 Mae cynigion yn briodol ac yn gymesurol.

2.4.4 Rhoddir copi o'r ACD i'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr, lle y bo'n briodol, ac mewn da bryd.

2.4.5 Mae ADP ac adroddiadau terfynu ar gael ac maent yn cynorthwyo'r llys wrth wneud penderfyniadau amserol.

3. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

3.1: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Dyfarniad allweddol

3.1.1: Caiff plant a phobl ifanc eu hatal rhag troseddu.

Tystiolaeth

3.1.1.1 Mae'r TTI yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol i droi sylw plant a phobl ifanc oddi wrth droseddu.

3.1.1.2 Cytunwyd ar broses gan y TTI a'i bartneriaid i nodi ac asesu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu.

3.1.1.3 Mae asesiadau yn sensitif i wahaniaeth diwylliannol ac amrywiaeth, ac yn gysylltiedig ag anghenion troseddegol.

3.1.1.4 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd ag anableddau.

3.1.1.5 Rhoddir sylw i ddiogelu plant a phobl ifanc.

3.1.1.6 Mae ymyriadau'n dangos effeithiolrwydd wrth leihau troseddu a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol.

3.1.1.7 Mae gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

3.2: Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Dyfarniad allweddol

3.2.1: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hatal rhag aildroseddu.

Tystiolaeth

3.2.1.1 Caiff ffurflen Asset ei llenwi'n llawn ar ddechrau pob ymyriad a'u hadolygu fel y bo'n briodol. Caiff ei llywio trwy gyswllt â gwasanaethau cymdeithasol a'r hunanasesiad, ac mae'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth a materion diogelu.

3.2.1.2 Caiff perygl niwed i eraill ei asesu'n llawn ym mhob achos y nodwyd ei fod yn achosi risg posibl, trwy'r ffurflen Asset gychwynnol neu offeryn arall a dderbynnir.

3.2.1.3 Ysgrifennir cynlluniau goruchwylio yn unol â safonau cenedlaethol, gyda phroses adferol dioddefwr, mae'n deillio o Asset ac yn cynnwys amcanion CAMPUS.

3.2.1.4 Mae ymyriadau'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, maent wedi'u targedu mewn meysydd o angen a aseswyd a chânt eu gwerthuso ac maent yn gyson ag egwyddorion arfer effeithiol.

3.2.1.5 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

3.2.1.6 Mae cyswllt â phlant a phobl ifanc yn gyson â safonau cenedlaethol ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

3.2.1.7 Mae gweithgarwch gorfodaeth yn dilyn diffyg cydymffurfio â graddfa amser y safon genedlaethol.

3.2.1.8 Cymerir camau i herio a lleihau gwahaniaethu ac aflonyddwch gan blant a phobl ifanc.

3.2.1.9 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gynnydd.

3.2.1.10 Mae'r TTI yn dangos gostyngiad mewn troseddu yn y bandiau cosb cyn-llys, haen gyntaf a chymunedol.

3.2.1.11 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn dangos gwelliannau mewn ymddygiad, agwedd a pherthnasoedd teuluol.

Dyfarniad allweddol

3.2.2: Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y TTI.

Tystiolaeth

3.2.2.1 Caiff staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc eu cynghori a'u cefnogi wrth nodi problemau corfforol ac iechyd meddwl posibl ac wrth wneud cyfeiriadau priodol.

3.2.2.2 Cynhelir asesiadau arbenigol ar y rheiny ag anghenion iechyd.

3.2.2.3 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu rhybuddio rhag camddefnyddio sylweddau.

3.2.2.4 Caiff plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl eu cefnogi wrth gael mynediad at wasanaethau sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion a aseswyd.

3.2.2.5 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn dangos tystiolaeth o ganlyniadau iechyd gwell.

3.2.2.6 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn awgrymu gwelliant mewn iechyd corfforol a meddwl.

Dyfarniad allweddol

3.2.3: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu diogelu trwy waith y TTI.

Tystiolaeth

3.2.3.1 Caiff perygl niwed, naill ai i'ch hun neu i/gan eraill (gwendid), ei asesu'n llawn ym mhob achos.

3.2.3.2 Mae'r TTI yn cyfeirio achosion lle nodwyd pryderon diogelu, i'r Gwasanaeth Plant lleol ac mae'n cyfrannu at gynlluniau amddiffyn plant ar sail achos wrth achos.

3.2.3.3 Mae meini prawf trothwy ar gyfer gwneud cyfeiriadau diogelu ac ymateb iddynt yn glir ac yn cael eu deall yn eang gan staff o'r TTI a Gwasanaethau Plant.

3.2.3.4 Mae ymyriadau'n ystyried diogelu plant a phobl ifanc.

3.2.3.5 Mae tystiolaeth o gydweithio a rhannu gwybodaeth a chynlluniau â'r gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd, yn enwedig yn achosion Plant sy'n Derbyn Gofal.

3.2.3.6 Caiff Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu arweiniad a chymorth priodol.

3.2.3.7 Mae'r TTI yn cyfrannu at adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi troseddu.

3.2.3.8 Mae archwiliad o ffeil achos yn dangos gostyngiad o ran ffactorau risg.

3.2.3.9 Mae cyfrifon mynegol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, dangos gostyngiad mewn gwendid.

Dyfarniad allweddol

3.2.4: Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Tystiolaeth

3.2.4.1 Cynhelir asesiadau arbenigol ar y rheiny ag anghenion addysgol penodol.

3.2.4.2 Mae ymyriadau'n hyrwyddo cyrhaeddiad a chânt eu targedu mewn meysydd o angen addysgol a aseswyd.

3.2.4.3 Rhoddir cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'u rhieni/gofalwyr, i hyrwyddo ymddygiad da, presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

3.2.4.4 Cymerir camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn mynychu lleoliadau amgen sydd wedi'u hanelu at sicrhau ailintegreiddio i addysg brif ffrwd.

3.2.4.5 Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu cefnogi wrth sicrhau addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

3.2.4.6 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

3.2.4.7 Mae cyfrifon mynegol gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill a holwyd, yn dangos cyflawniad a/neu gyrhaeddiad gwell.

Dyfarniad allweddol

3.2.5: Caiff canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc eu gwella gan eu cysylltiad trwy ymgynghori ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y TTI.

Tystiolaeth

3.2.5.1 Mae'r TTI yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

3.2.5.2 Cymerir camau rhagweithiol i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn grwpiau lleiafrifol, plant iau a'r rheiny â phroblemau cyfathrebu yn gallu rhoi eu barn.

3.2.5.3 Mae ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd darpariaeth y gwasanaeth.

3.2.5.4 Mae staff yn rhoi adborth effeithiol ar weithredu yn dilyn ymgynghori, neu ar faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc unigol, gan gynnwys rhesymau dros beidio â gweithredu ar faterion penodol.

3.3: Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Dyfarniad allweddol

3.3.1: Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael â throseddu eu plant.

Tystiolaeth

3.3.1.1 Cynhelir asesiadau o sgiliau magu plant mewn modd amserol, yn unol â chanllawiau arfer effeithiol y BCI ac fe'u defnyddir i lywio ymyriadau.

3.3.1.2 Gwneir rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o ofynion yr ymyriadau a chânt wybod am gynnydd yn ystod yr ymyriad.

3.3.1.3 Cyfeirir rhieni/gofalwyr at ymyriadau sy'n sensitif i anghenion amrywiol rhieni/gofalwyr o ystod o gefndiroedd diwylliannol ac maent ar gael ar sail wirfoddol a statudol.

3.3.1.4 Cefnogir rhieni/gofalwyr wrth fynd i'r afael ag ymddygiad eu plant.

3.3.1.5 Mae ymyriadau yn hyrwyddo magu plant yn effeithiol mewn perthynas â gallu'r rhieni/gofalwyr i ofalu, rheoli a diogelu'r plentyn neu'r person ifanc.

4. Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau

Dyfarniad allweddol

4.1: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCH yn troseddu eto ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy asesiad.

Tystiolaeth

4.1.1 Llenwir ffurflen Asset sy'n ystyried gwahaniaeth diwylliannol, amrywiaeth, iechyd, addysg, diogelu a materion teulu, ac fe'i hanfonir i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.2 Caiff ffactorau risg penodol (e.e. perygl niwed, naill ai i'ch hun neu i/gan eraill, iechyd neu gamddefnyddio sylweddau) eu hasesu a'u cyfathrebu i'r sefydliad diogel ar unwaith.

4.1.3 Mae'r gweithiwr TTI yn anfon copïau o'r holl asesiadau perthnasol, gan gynnwys cynlluniau gofal, ACDau, euogfarnau blaenorol, cynlluniau iechyd ac addysgol, i'r sefydliad diogel ymhen 24 awr i'r ymddangosiad llys.

4.1.4 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu at y cynllun hyfforddiant cychwynnol ac yn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan Asset.

4.1.5 Mae'r TTI yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sefydliad diogel i sicrhau bod anghenion addysgol, hyfforddiant ac iechyd yn cael eu hasesu a'u datrys.

4.1.6 Cymerir camau i nodi a mynd i'r afael ag anghenion penodol Plant sy'n Derbyn Gofal, neu blant sy'n agored i niwed fel arall, merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

4.1.7 Caiff anghenion cartrefi'r plentyn neu'r person ifanc adeg eu rhyddhau eu hasesu, a chymerir camau, lle y bo'n berthnasol, i atal colli llety presennol neu i sicrhau trefniadau sefydlog newydd.

Dyfarniad allweddol

4.2: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau yn aildroseddu ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy gyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc a chyswllt effeithiol â'r sefydliad gwarchodol yn ystod y cyfnod gwarchodol.

Tystiolaeth

4.2.1 Mae'r TTI yn cyfathrebu'n rheolaidd â phobl allweddol mewn sefydliadau diogel.

4.2.2 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio dedfrydau a chyfarfodydd adolygu ac at adolygiadau o'r cynllun hyfforddi.

4.2.3 Mae'r TTI yn hwyluso cyswllt â'r holl ddarparwyr gwasanaeth sy'n berthnasol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc a'r risg a gyflwynir ganddynt.

4.2.4 Caiff trefniadau i fodloni anghenion a aseswyd y person ifanc, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, addysg a llety, eu pennu wrth baratoi ar gyfer eu rhyddhau.

4.2.5 Gwneir darpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion penodol plant sy'n Derbyn Gofal neu blant sy'n agored i niwed fel arall, merched a menywod ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sy'n anabl.

4.2.6 Mae'r gweithiwr TTI yn cyfrannu'n weithredol at y cyfarfod adolygu terfynol, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.2.7 Caiff rhieni/gofalwyr eu hannog i fynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygu dedfryd, yn benodol, y cyfarfod adolygu terfynol.

Dyfarniad allweddol

4.3: Caiff y tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc sy'n derbyn GCHau ei leihau trwy ymyriad y TTI trwy ailintegreiddio i'r gymuned.

Tystiolaeth

4.3.1 Caiff y cynllun hyfforddi ei adolygu ymhen deg diwrnod gwaith ac, wedi hynny, bob tri mis neu ar ddiwedd y gorchymyn, pa bynnag un yw'r cynharaf.

4.3.2 Mae gweithiwr y TTI yn asesu ac yn monitro anghenion lletya'r plentyn neu'r person ifanc.

4.3.3 Mae gweithiwr y TTI yn monitro darpariaeth gwasanaethau iechyd ac addysg, a hysbysir y Bwrdd Rheoli pan na ddarperir y gwasanaethau hyn, yn unol â'r safon genedlaethol.

4.3.4 Mae cynllun dysgu unigol y plentyn neu'r person ifanc yn parhau ar ôl ei ryddhau a chaiff ei adolygu, ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i rannu â darparwyr a sefydliadau perthnasol, yn enwedig Connexions.

4.3.5 Parheir ag ymyriadau a ddechreuwyd yn y ddalfa i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, iechyd, diogelu ac addysg adeg rhyddhau, pan fo'n briodol.

4.3.6 Mae ymyriadau yn gynhwysol ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau.

4.3.7 Mae cyswllt y TTI â phlant a phobl ifanc a ryddheir o'r ddalfa yn gyson â'r safon genedlaethol ac arweiniad y Swyddfa Gartref/BCI.

4.3.8 Mae gweithgarwch gorfodaeth yn dilyn diffyg cydymffurfio ag amserlen y safon genedlaethol.

Dyfarniad allweddol

4.4: Mae'r TTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun GCHau.

Tystiolaeth

4.4.1 Mae archwiliad o'r ffeil achos yn darparu tystiolaeth o gynnydd, a ddangosir, er enghraifft, gan agwedd at droseddu, perthynas gwell â theulu, canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol a llai o wendid.

4.4.2 Mae'r TTI yn dangos gostyngiad mewn aildroseddu ar gyfer band gwarchodaeth cosbau.

4.4.3 Mae cyfrifon mynegol o ganlyniadau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol a holwyd, yn dangos gwelliannau mewn ymddygiad ac agwedd.

5. Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Dyfarniad allweddol

5.1: Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo'u bod wedi cael eu cynorthwyo gan ymyriad y TTI ddod ag achos i derfyn.

Tystiolaeth

5.1.1 Cynhelir asesiadau o anghenion dioddefwyr yn gyson mewn modd amserol, yn unol â chanllawiau arfer effeithiol.

5.1.2 Rhoddir cyfle i bob dioddefwr wneud penderfyniadau cytbwys am eu cysylltiad â phrosesau adferol uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a chânt eu cefnogi wrth wneud hynny.

5.1.3 Cynhelir sesiynau cyfathrebu mewn modd sensitif, yn ymatebol i anghenion, amgylchiadau, hoffter ac amrywiaeth unigol.

5.1.4 Cynigir cyfle i ddioddefwyr ddylanwadu ar unrhyw elfen atgyweiriol ar gynllun goruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc a chael gwybod am eu cynnydd.

5.1.5 Mae gan ddioddefwyr fynediad at ymyriad adferol sydd wedi'i deilwra yn ôl eu hanghenion.

5.1.6 Darperir ymyriadau adferol ac atgyweiriol sy'n briodol i oedran, gwendid, diwylliant, ethnigrwydd, anghenion iaith, lefelau llythrennedd a rhyw'r dioddefwyr a phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

5.1.7 Cynigir cyfle i bob dioddefwr roi adborth a ddefnyddir i lywio gwaith y TTI.

5.1.8 Mae plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig ag ymyriadau adferol yn cyfrannu at y dioddefwr a'r gymuned mewn modd cadarnhaol.